

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Tachwedd 2013

Rhif 438

50c

Campau'r Cymwynaswyr



Yn y llun gwelir Eleanor a'r Grŵp yn derbyn y wobwr gan Lowri Morgan, y cyflwynydd teledu a phersonoliaeth chwaraeon amlwg oedd yn cyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.

YN ystod mis Hydref, cynhaliwyd noson wobrwyo yn Llandudno i gydnabod gwaith unigolion a grwpiau o wirfoddolwyr mewn gwahanol feysydd yng Ngogledd Cymru. Testun llawenydd yw gallu cyhoeddi bod tair gwobr wedi dod i Ddyffryn Ogwen, drwy ymdrechion clodwiw Raymond Tugwell, Rachub, ac Eleanor Jones, Gerlan. Enillodd Raymond y wobwr unigol, a hefyd y brif wobwr, sef Pencampwr y Pencampwyr, a llwyddodd Grŵp Cymunedol Eleanor i gipio'r wobwr yn adran y grwpiau.



Raymond Tugwell

Mae Raymond ac Eleanor ill dau yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth a gânt, ac 'rydym ninnau, drigolion y Dyffryn, yn ddiolchgar iddynt hwythau am eu gweledigaeth a'u hymroddiad. Llongyfarchiadau mawr i chwi – dyma ddau sydd yn esiampl ardderchog i bob un ohonom.

Sefydlodd Eleanor y Grŵp i godi arian i brynu offer i Ward Alaw Ysbyty Gwynedd, ac erbyn hyn mae'r Grŵp wedi codi miloedd o bunnau at yr achos teilwng hwn. Mae Apêl Eleanor yn dal yn brysur iawn, gydag amryw o weithgareddau ar y gweill i'r dyfodol.

'Rydym yn gyfarwydd iawn â gwaith dyngarol Raymond dros ddeugain a mwy o flynyddoedd, nid yn unig drwy godi arian at ymchwil liwcimia mewn plant, ond hefyd at nifer helaeth o achosion da eraill. Mae wedi llithro i lawr Tŵr Marcwis, trefnu tripiâu siopa, cerdded milltiroedd ar deithiau noddedig, hedfan ar y Weiren Wib, a threfnu carnifal blynyddol, nosweithiau coffi niferus, a chyngherddau Gŵyl Ddewi Prifysgol Bangor.

Carolau yn Llys Dafydd

Yng nghwmni
Côr y Penrhyn ac Eraill
Nos Iau, 19 Rhagfyr 2013

8.15 pm

Croeso Cynnes i Bawb

Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

Yng Nghapel Jerusalem

Nos Sul, 22 Rhagfyr
7.00 pm

Dewch i ddathlu'r ŵyl
yng nghwmni

Côr y Dyffryn
Côr Ysgol Dyffryn Ogwen
ac eraill
Gwneir casgliad at achos da

Croeso Cynnes i Bawb

COFIWCH!

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Nos Wener, 15 Tachwedd
Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd

Eleni, bydd y cyfarfod nos Wener,
yn ogystal â'r cyfarfod dydd
Sadwrn, yn
Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.

Fe gofiwch, mae'n siwr, mai ar ffurf
cyngerdd y bydd cyfarfod nos
Wener, pryd y bydd unawdwyr
lleisiol ac offerynnol, llefarwyr a
chorau yn cael cyfle i arddangos
eu doniau. Hefyd, cynhelir
Seremoni Cadeirio'r bardd, a
llenorion ifainc, yn ystod y noson
hon.

Dewch yn llu i fwynhau'r
wledd flynyddol hon!

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
hylaw@btinternet.com



600965

Ieuan Wyn
cylch@tiscali.co.uk



600297

Lowri Roberts
l.roberts11@btinternet.com



600490

Dewi Llewelyn Siôn
dewision@hotmail.co.uk



07901
913901

Fiona Cadwaladr Owen
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk



601592

Siân Esmor Rees
sian_esmor@btinternet.com



600427

Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com



600853

Dewi A Morgan
dewimorgan@live.co.uk



602440

Trystan Pritchard
trystanrp1@gmail.com



07402
373444

Walter W Williams
waltermenai@yahoo.co.uk



601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT  602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA  600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH  601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Radhub,
Llanllechid LL57 3EZ  600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN  600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Lowri Roberts a Walter W. Williams.

Golygydd mis Rhagfyr fydd Neville Hughes,
Bryn Ffrydlas, 14 Ffordd Pant, Bethesda,
LL57 3PA. (01248 600853)
e-bost : nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
04 Rhagfyr os gwelwch yn dda. Plygu nos
lau, 19 Rhagfyr, yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

£50.00

Huw Davies, Yarnfield, Stone.

£100.00

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

£20.00

Y Parchedig Geraint Hughes a Mrs Ann Hughes, Bethel.

£20.00

Er cof am Glyn Campbell, Erw las ac er cof am Paul (a fuasai'n 50 oed ar 28 Hydref) oddi wrth Hilda, Lynne a'r teulu.

£6.00

Glyn P Evans, Amwythig.

£30.00

Er cof annwyl am William Thomas Roberts, 27 Glan Ffrydlas, Bethesda oddi wrth Mair.

£ 5.00

Elfed Evans, Hen Barc.

£ 5.00

Er cof annwyl am Richard Cyril Thomas (22 Maes Ogwen, Tregarth gynt). Buasai yn 98 mlwydd oed ar 17 Tachwedd. Bu farw ar 13 Rhagfyr 1988. Oddi wrth Llewela!

£ 4.00

Dienw, Llandygi.

£20.00

Mrs Megan Parry, 3 Penrhiw, Mynydd Llandygái, er cof am Dei

£50.00

Er cof am ben-blwydd (27 Tachwedd) David Wyn Williams, 16 STad COetmor. Oddi wrth Sandra, Darren a Sara.

£10.00

Er cof am Gwilym Williams, Maes Caradog. Gan y teulu.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Hydref

£30.00

(86) Rosemary Williams, 19 ffordd Tanrhiw, Tregarth

£20.00

(03) John Huw Evans, Bro Rhiwen, Bethesda

£10.00

(95) Gwyneth Morris, Gwaen Gwiall, Gerlan

£5.00

(161) Meirwen Jones, 3 Glan Llyn, Bethel.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd  **601415**

Neville Hughes  **600853**

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Oherwydd costau cynyddol, ofnir y bydd yn rhaid codi prisiau anfon Llais Ogwan drwy'r post o fis Ionawr 2014 ymlaen.



Y gost fydd -
Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

 01248 600184

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Tachwedd

15 a 16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.

16 Bore Coffi Eglwys St. Tegai. Caffi Coed y Brenin. 10 – 12.

19 Cyfarfod Blynyddol Caban y Gerlan. Yn y Caban am 7.00

21 Sioe Ffasiwn Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Theatr Ddarlith yr Ysbyty am 7.30.

23 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes. 10.00 - 12.00

26 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

27 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

28 Merched y Wawr Bethesda. Jonsi, Ambiwylans Awyr Cymru. Cefnfaes 7.00

Mis Rhagfyr

02 Merched y Wawr Tregarth. Cinio Nadolig.

03 Merched y Wawr Bethesda. Cinio Nadolig.

04 Ffair Nadolig. Festri Bethlehem, Talybont am 6.30.

05 Sefydliad y Merched Carneddi. Dathlu'r Nadolig. Cefnfaes am 7.00

07 Ffair Nadolig y Blaid Lafur. Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00

07 Bore Coffi ysgol Llanllechid, Clwb Criced Bethesda. 10.00 - 12.00

09 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Catrin Wager. Festri Jerusalem am 7.00.

14 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

18 Cinio Nadolig Gorffwysfan. Gwesty Glan Aber, Betws y Coed.

19 Canu Carolau Cymunedol yn Llys Dafydd. 8.15 y.h. ymlaen

19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

22 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem, Bethesda am 7.00

Mis Ionawr

11 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN  07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Yr Ymgyrch i Warchod Coetmor Does Dim Angen Stadau Mawr

Mewn ymateb i lythyr diweddar gan Bwyllgor Diogelu Coetmor, mae Cyngor Gwynedd wedi datgan fel hyn:

“Nid oes bwriad gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd baratoi strategaethau cymunedol na chynnal arolygon cymunedol o anghenion tai.”

Mae hi’n anodd deall pam nad yw’r Cyngor yn barod i wneud hyn oherwydd nid yw’n bosib cynllunio’n gytbwys a diogelu nodweddion cymunedol fel yr iaith a’r diwylliant heb lunio strategaethau cynllunio cymunedol yn seiliedig ar ddarlun cyflawn o sefyllfa dai pob ward unigol. Gan fod ymateb Cyngor Gwynedd yn anfodddhaol, mae Pwyllgor Diogelu Coetmor wedi anfon at y Cyngor yn gofyn i’r Gwasanaeth Cynllunio sefydlu trefn a fydd yn golygu cynllunio cymunedol cytbwys a fyddai wedi ei seilio ar anghenion y cymunedau unigol ac a fyddai’n gwarchod eu nodweddion ieithyddol a diwylliannol. Dyma’r math o drefn y dymunwn ei weld:

- Creu mecanwaith efo’r bwriad o grynhoi gwybodaeth am y sefyllfa dai ym mhob ward yn y sir
- Casglu gwybodaeth gyfredol am y stoc tai ym mhob ward, sef y mathau a’r niferoedd o dai (tai preifat y farchnad agored/tai henoed/tai fforddiadwy/tai a fflatiau cymdeithasol) sydd ym mhob ward
- Cynnal arolygon cymunedol o anghenion tai yn rheolaidd er mwyn cadw’r data’n gyfredol
- Cynllunio’n unol â’r gofyn lleol am dai newydd fel nad oes gor-ddefnyddio tir a gorddatblygu a allai olygu denu mewnlfiaid
- Codi clystyrau bychain o dai a fyddai’n mewn-lenwi bylchau ym mhatrwm cynllun yr ardal fel eu bod yn plethu i mewn i wead y gymdogaeth.

Yma yn Nyffryn Ogwen byddem yn falch iawn pe bai ein cynrychiolwyr lleol, yn y cyngorau cymuned a’r cyngor sir, yn cefnogi’r alwad hon gennym, ac yn rhoi arweiniad ar y mater hwn er mwyn sicrhau cynllunio cytbwys a chynaliadwy ar lefel gymunedol. Onid y cam cyntaf fyddai gofyn i’n cyngorwyr drefnu cyfarfod cyhoeddus ym Methesda i drafod y sefyllfa dai yn lleol?

Pwyllgor Diogelu Coetmor

Cofiwch (os nad ydych wedi gwneud hyd yma) anfon llythyr i wrthwynebu’r cais cynllunio i godi stad 69 o dai yng Nghoetmor, Bethesda. Gellwch anfon llythyr copi caled at Glyn Llewelyn Gruffudd, Uwch Swyddog Cynllunio, Swyddfa’r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA, neu lythyr e-bost ato i: **cynllunio@gwynedd.gov.uk** Dyma batrwm ar eich cyfer, os dymunwch ei ddefnyddio:

Annwyl Glyn Llewelyn Gruffudd,

Cais Cynllunio C13/0412/13/AM (stad 69 o dai ar dir ger Maes Coetmor, Bethesda)

Gofynnaf i Gyngor Gwynedd wrthod y cais cynllunio uchod oherwydd ei fod yn engrhaifft o orddatblygu a fyddai’n debygol o wanychu sefyllfa’r Gymraeg yn yr ardal. Hefyd nid oes arolwg o anghenion tai wedi ei gynnal yn y gymuned leol. Gofynnaf i Gyngor Gwynedd gomisiynu asesiad ardrawiad iaith o’r datblygiad arfaethedig.

Yn gywir,



O ‘Tŷ Ni’

Y gŵr (a finnau yn helpu) sy’n gyfrifol am anfon Llais Ogwan trwy’r post. Mae 92 copi yn cael eu hanfon bob mis, yn cynnwys Seland Newydd, Canada a’r Swistir. Wrth gwrs, mae angen stamp a label cyfeiriad ar bob amlen a dyma ddechrau meddwl beth oedd hanes llythyrau, stampiau a’r cyfaill pwysig - y postmon.

Yn ôl pob tebyg, yn yr hen Aifft a’r Dwyrain Canol y datblygwyd y systemau ‘post’ cynharaf. Dywedir fod gan yr hen Eifftiaid system anfon negeseuon mor bell yr ôl a 1580 CC. Tua 1000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd gan y Persiaid system gyfathrebu eitha’ dibynadwy oherwydd datblygiad system ffyrdd effeithiol. Ar geffylau y trosglwyddwyd y post.

Yn 1783, roedd y goets fawr yn mynd o gwmpas y gwledydd yn casglu a dosbarthu llythyrau. Aeth y gyntaf o Fryste i Lundain gan drafaelio dros nos ac oherwydd llwyddiant y gwasanaeth, dyna wir ddechrau’r system bost sydd gennym heddiw.

Y person oedd yn derbyn y llythyr oedd yn gorfod talu am ei gludiant yn yr oes a fu ac roedd y swm yn dibynnu ar y pellter. Yn y flwyddyn 1840 cafwyd y stamp cyntaf - sef y stamp ceiniog du - a’r person oedd yn anfon y llythyr yn talu.

Nid ceffylau yn unig oedd yn gyfrifol am gludo post, roedd gwartheg mewn pentrefi yn yr Almaen, camelod yn y Dwyrain Canol a cheirw yng ngwledydd Sgandinafia. Dywedir fod dinas Liège yng Ngwlad Belg wedi rhoi cynnig ar gathod - ond annibynadwy oedd y rhain! Ydi, mae pethau’n dipyn haws erbyn heddiw a’r postmon o gwmpas yn ddyddiol yn ei fan goch. Mae ein postmon siriol ni yn cerdded tua 4 milltir y dydd medda’ fo.

Ond heddiw, y syndod mawr yw’r wyrth o allu anfon e-bost i bedwar ban byd mewn eiliadau. Hefyd, mae arna i ofn fy mod wedi hen roi’r gorau i anfon cardiau gwyliau (y rhai sy’n cyrraedd teulu / ffrindiau ar ôl i mi gyrraedd adref). Nodyn bach ar y ffôn bach symudol yn dipyn haws!

O ‘Tŷ Chi’

Stori gas (ond gwir) gan wraig dyn sy’n dymuno aros yn anhysbys!! Dwi’n gweld dim bai arno - embaras! Cafwyd enw a chyfeiriad y cyfrannwr.

Un poenus o drefnus ydi’r gŵr pan ddaw hi’n amser gwyliau. Yn wahanol i mi, bydd yn pacio ei gês tua phythefnos cyn cychwyn a bydd yn gwneud yn hollol siŵr fod y dogfennau i gyd yn eu priod le yn y waled deithio gan eu tynnu allan yn ddyddiol er mwyn sicrhau nad ydynt wedi magu traed cyn i ni gychwyn ar ein taith. Felly dychmygwch fy siom a’m syndod wedi i ni gyrraedd porthladd Dover o sylwi fod ein pasports out of date ! “Ma’ nhw ’di darford ers 2007! “Sbŷa, mae gen ti lond pen o wallt yn y llun !” medda fi gan edrych ar y corun moel a eisteddai yn sedd y gyrrwr.

Wedi taith o 366 milltir, mi fasa hi wedi bod yn biti troi yn ôl. Felly draw a ni at y passport control. Doedd gan y Ffrancwr yn fannu ddim diddordeb mewn edrych ar ein dogfennau, dim ond dymuno “bon voyage” i ni! “Ond Monsieur, mae gennym broblem,” medda’r gŵr gan ddangos y dyddiad ar y pasport. (Un cydwybodol a gonest fuo fo erioed!) “Mon Dieu is that your wife?” oedd ymateb y Ffrancwr powld, cyn holi i ble a pha mor hir roeddai ni am aros yn ei wlad. Yna, ar ôl pendroni am ychydig, gadawodd i ni fynd drwodd. Felly ymlaen a ni at y passport control Prydeinig, lle cawsom ein rhybuddio i ddisgwyl helynt yn Calais ar ein ffordd yn ôl.

Bu’r gwyliau yn Ffrainc yn fendigedig ond yn rhy sydyn, daeth yn amser dychwelyd i Calais a gyrrodd y gŵr unwaith eto at y passport control. Wrth glywed am ein problem, chwaredodd swyddogion Ffrainc gan gynnig i ni aros yn eu gwlad am byth! Ond pan ddaethom at swyddogion Prydain, roedd yn fater gwahanol ac fe anfonwyd ni i ryw gompownd i aros ein tynged gyda chriwiau o deithwyr amheus ac anystywallt fel yr olwg a’u cerbydau racs. Fel rheol, rydw i yn un eithaf digynnwrf ond fel yr aeth yr amser ymlaen a ninnau yn dal i eistedd yno fel rhyw fewnfudwyr anghyfreithlon, a’r teithwyr amheus eraill i gyd, erbyn hynny wedi cael yr oce i gario mlaen i Blighty, dechreuais droi yn flin a beio’r gŵr am fod mor flêr.

Yna, o’r diwedd ar ôl amser hir, daeth rhyw swyddog hunan bwysig atom a gofyn i’r gŵr ddweud ei gyfeiriad. Dechreuodd hwnnw sillafu’r enwau Cymraeg ond torrodd y swyddog ar ei draws. “Na, na peidiwch â’i sillafu. Jest dudwch o.” Ar ôl clywed y gŵr yn adrodd ein cyfeiriad, torrodd gwên dros wyneb y swyddog a dywedodd ei bod yn amlwg mai Cymry oeddai ni ac roedd am adael i ni fynd adref. “Ond cofiwch chi,” meddai, “petasech chi wedi bod yn Saeson, mi faswn yn eich cadw chi yma!”

Felly ferched Dyffryn Ogwen, dim ond rhybudd sydd gen i – peidiwch â chymryd yn ganiataol fod eich gŵr yn dryst er mor drefnus ma’ nhw’n ymddangos – gall y callaf golli weithiau!

Bethesda

Liên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ 601902

Geni
Llongyfarchiadau i Daniel a Samantha yn Llanddaniel, ar enedigaeth hogan fach ar 24 Hydref, sef Millie Nadine, chwaer fach i Callum.

Llongyfarchiadau hefyd i daid a nain, Kevin a Beverley, 2 Allt Penybryn, ac i hen daid a hen nain, Derek a Norma, 46 Abercaseg. Mae Daniel a Samantha yn ddiolchgar i bawb am y cardiau a'r anrhegion.

Graddio
Llongyfarchiadau i Nia Wyn Jones, 35, Erw Las, ar ennill gradd 2:1 mewn Nyrsio Anableddau Dysgu ym Mhrifysgol Bangor. Mae Mam a Dad, Nerys a Kerron, a Nain Tregarth yn falch iawn ohoni!

Diolch
Dymuna Dafydd Pritchard, Rhys Elfed, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion ariannol er cof am ei annwyl chwaer, Helen. Diolch i staff Cartref Nyrsio Penisarwaen ac i'r gweinidogion, y Parchedigion Marcus Robinson a Geraint Hughes.

Diolch hefyd i Gavin a James am drefnu'r angladd ac i Gareth Williams, yr ymgymerwr am ei drefniadau gofalus a thrylwyr. Diolch i'r Dr. John Elwyn Hughes, Heulwen a Pat am eu cymorth hefyd. Casglwyd cyfanswm o £400 i'w rannu rhwng Cartref Nyrsio Penisarwaen ac Ymchwil Canser.

Priodas
Ar Hydref 19eg, yn Eglwys Crist, Glanogwen, priodwyd Lisa Marie Rowlands o Erw Las a David Tetlow o Gaerlŷr. Mae'r ddau yn wyddonwyr biomeddygol yn Ysbyty Gwynedd, ac yn byw yn Sling. Pob dymuniad da i'r ddau ohonch.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Joyce Jones, 14 Maes y Garnedd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 5 Tachwedd.

Cyfarchion Nadolig
Ni fydd Doreen Jones, 15 Maes Coetmor, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond serch hynny mae'n dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion i gyd!

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Angharad Efans, 26 Glanffrydlas, ar ei dyweddiad ag Elfed John Williams, Waen Pentir, Rhiwlas.

Marwolaeth
Bu farw Jean Griffith, 20 Maes Coetmor, yn 71 oed, fore Sul, Hydref 10, yn Ysbyty Gwynedd. Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad ac i bawb a fu mor gymdogol a chymwynasgar tuag ati dros y blynyddoedd. Gwerthfawrogi Jean gyfeillgarwch ei ffrindiau – Val a Joanna (a fu gyda hi yn ei horiau olaf), Gwen ac eraill a fu mor garedig wrthi. Dymunir diolch i aelodau Adran Ddamweinau ac Argyfwng a Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal a'u caredigrwydd ac i'r Parch. Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth ddydd Gwener, Tachwedd 1 yn yr Amlosgfa ym Mangor. Diolchir yn arbennig hefyd i Robin Hughes a'i Fab, Llangefni, am eu trefniadau teilwng ac urddasol.

Gair o ddiolch
Fe hoffai Thomas a Heddwen Jones, Rhos-y-Coed, ddiolch i'w ffrindiau a theulu am yr holl gymorth yn dilyn eu cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Nicola a'r teulu, Gwêl y Nant, ddiolch yn fawr iawn i bawb am drefnu noson ardderchog yng Ngwesty'r Llangollen yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i Gwyn, Llangollen, ac Alastair James, Conwy, ac i bawb a gyfrannodd tuag at y noson.

Ysbyty
Cofion a gwellhâd buan i'r sawl a fu'n yr ysbyty yn derbyn triniaeth yn ystod y mis diwethaf: Mrs Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas; Mr John Jones, Ffordd Bangor; Mr Emlyn Evans, Rhos y Nant

Profedigaethau
Anfonwn ein cydymdeimlad â Mrs Hefina Watts, Ffordd Abercaseg, a Chris, Donna a'r plant, Garneddwen, yn eu profedigaeth o golli mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain annwyl sef y ddiweddar Mrs Catherine Doreen Watts, Rachub.

Ar 10 Hydref yn ei chartref, 1 Cil Caseg, yn 73 oed, bu farw Mrs Barbara Ann Lovell, priod annwyl Mr Ron Lovell a mam Barry, Graham, Steven a Jacqueline, nain a hen nain, a chwaer i Tony, Ray, Sheila a Jean. Bu ei hangladd ddydd Iau, 17 Hydref gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Yn Ysbyty Eryri ar 19 Hydref, bu farw Mrs Shirley Patricia Roberts, 9 Dolgoch (gynt o Fangor), yn 65 oed; mam Chris a Medi, nain Chloe a Thomas, a modryb i Sarah, Audrea a Bethany. Bu gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener, 25 Hydref. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Ymddeoliad y Parch. Geraint Hughes



Nos Sul, Hydref 27, oedd Sul olaf y Parch. Geraint Hughes fel gweinidog Bro yn Nyffryn Ogwen. Wedi blynyddoedd o wasanaethu drwy Gymru, yng Nghapel Carmel y bu'n pregethu am y tro olaf cyn ei ymddeoliad.

Un o Benmaenmawr yw Mr Hughes yn wreiddiol, ac wedi cyfnod yn y Coleg ym Mangor, bu'n gwasanaethu mewn eglwysi yng Nghanolbarth a De Cymru cyn symud i ardal Chwilog. Oddi yno, bron i ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl, symudodd i Ddyffryn Ogwen gan gymeryd gofal am dair eglwys sef Carmel, Rachub; Jerusalem, Bethesda; a Bethlehem, Talybont.

Cynhaliwyd oedfa arbennig wedi ei threfnu gan Joe Hughes yng Ngharmel ar y prynhawn Sul olaf, gydag aelodau o'r dair eglwys yn cymryd rhan. Gweinyddwyd Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y gweinidog yn ystod yr oedfa.

Derbyniodd Mr. Hughes dysteb o ddiolchgarwch gan aelodau'r tair eglwys am ei wasanaeth, gyda Mrs Anne Hughes yn derbyn tusw hardd o flodau. Dymuniadau gorau iddo ef ac Anne am flynyddoedd o iechyd a hapusrwydd yn eu cartref newydd ym Mhwlheli.

Clwb Gwawr Newydd Genod Pesda (ardal Bethesda)



Ar nos Iau 10fed o Hydref daeth criw o ferched at ei gilydd yn y Clwb Rygbi, Bethesda i glywed mwy am Glybiau Gwawr.

Rhan o Ferched Y Wawr ydynt, yn rhoi cyfle i ferched ifanc (ac ifanc eu hysbryd) gyfarfod unwaith y mis i gymdeithasu a chael hwyl trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros yr ugain mlynedd diwethaf mae'r rhwydwaith o Glybiau Gwawr wedi lledaenu ar draws Cymru, ac erbyn heddiw mae dros 40 clwb efo bron 600 aelod yn mwynhau gweithgareddau cyffrous bob mis.

Yn dilyn sgwrs efo Bronwen Wright (Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y Gogledd), roedd pawb yn unfrydol bod eisiau dechrau "Clwb Gwawr Genod Pesda".

Mi fydd y noson nesaf yn dechrau a gorffen yn y Clwb Rygbi, Bethesda ar nos Sadwrn, 16 Tachwedd o 7.30yh ymlaen. Dewch am noson o hwyl ar daith tafarnau mewn gwisg ffansi i godi arian tuag at BBC Plant Mewn Angen.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Angharad Llwyd Beech ar 07977 567592 neu angharadllwyd@hotmail.com. Mae manylion hefyd ar Facebook "Clybiau Gwawr - Y Clwb i Ferched Cymru" ac ar www.clybiaugwawr.com

Merched y Wawr

Cyfarfod Hydref

Cynhaliwyd cyfarfod y gangen nos Iau, Hydref 31ain, o dan lywyddiaeth y Fns.Elena Owen gyda’r Fns.Gwenno Evans yn cyfeilio.

Anerchiad y Llywydd

Croesawyd pawb. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eirwen (Griffith) ac Eleanor Holland. Nid yw Eleanor wedi bod yn dda yn ddiweddar a dymunwn wellhad buan iddi. Diolchwyd i Griff ac Eleanor Morris am eu gwaith yn argraffu rhaglenni a thocynnau’r Bore Coffi. Maent mor barod bob amser i ymwneud â’r gwaith cyfrifiadurol yma.

Wedi trefnu manylion y Bore Coffi a’r Cinio Nadolig, daeth yr amser i groesawu’r gŵr gwâdd, sef Gethin Davies. Fodd bynnag, cyn ei groesawu rhoddodd Elena ni yn y cyflwr meddyliol priodol ar gyfer y noson, drwy sôn am weddi fer o waith yr Esgob Basil Fawr o Dwrci (330 – 379). Hen weddi dros anifeiliaid y ddaear yw hon, sy’n ein hatgoffa y dylem barchu’r cread a’r holl anifeiliaid, gan gofio fod gan pob creadur, fel ninnau, deimladau.

Ond i ddychwelyd at Gethin. Brodor o Fôn yw’r gŵr ieuanc hwn, sydd wedi ymgartrefu yn y Gerlan ers tair blynedd. Mae’n rhan o dîm sy’n gweithio i Barc Cenedlaethol Eryri, a’r testun ganddo oedd ‘Bywyd Gwyllt Eryri’. Cawsom hanes amrywiaeth arbennig ac eang o blanhigion, pryfetyach, anifeiliaid bychain, adar, pysgod a chynefinoedd. Gwaith y tîm yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth a pharchu cynefin. Dyfynnaf eiriau Syr T.H.Parry Williams :-

*Ond gwn pwy wyf os caf innau fryn
A mawndir a phabwyr a chraig a llyn*

Diolchwyd yn haeddiannol i Gethin gan y llywydd a hefyd i’r merched am ddarparu’r lluniaeth.

Y Raffl

Rhoddwyd y wobr lwcus gan Jennie a’r enillydd oedd Eirlys (Cefni)

Cyflwyno siec

Casglodd Pwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr dros £2,700 i fudiad CLIC sef i blant Môn ac Arfon sy’n dioddef o Gancr neu Lwcemia.



Dyma Valerie Jones Griffiths (Trysorydd y Gangen) a Mair Lloyd Hughes (Cadeirydd y Gangen) yn cyflwyno’r siec i Nyrs Eleri Fôn Roberts sy’n gwneud gwaith arbennig iawn gyda’r bobl ifanc hyn.

Gorffwysfan

Cynhelir cinio Nadolig 2013 ar ddydd Mercher, 18 Rhagfyr, yng ngwesty Glan Aber, Betws y Coed. Enwau ar y rhestr yn Gorffwysfan os gwelwch yn dda.

O Fethesda i’r Bahamas

Mae Elin Mai Roberts o Erw Las wedi dechrau ar swydd newydd sydd wedi mynd â hi yn bell iawn o Ddyffryn Ogwen. Mae hi yn gweithio fel tylinydd ar long bleser teithiol sy’n mynd â phobl ar deithiau moethus o amgylch mannau hyfryd megis y Bahamas. Er ei bod yn gweithio oriau hir mae Elin hefyd yn cael cyfle i weld y lleoedd arbennig hyn.

Bydd yn teithio tan fis Mehefin nesaf, pan gaiff ddod adref am gyfnod o wyliau! Onid yw technoleg yr oes hon yn wych - mae’r teulu’n gallu cysylltu â hi yn ddyddiol drwy Skype! Pob lwc i ti Elin, ac mae’n siwr dy fod yn mwynhau yn ogystal â gweithio’n galed.

Wyneb Newydd

Bellach mae tafarn y Siôr, Carneddi, yn cael ei rhedeg gan wyneb newydd. Er hyn mae’n wyneb adnabyddus yn yr ardal, sef Dewi Siôn, Erw Las. Braf gweld person lleol yn ôl yno unwaith eto. Bydd croeso mawr i bawb gan Dewi a’r criw. Pob lwc Dewi.

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parch Geraint Hughes

Gyda lliwiau’r Hydref mor amlwg o’n cwmpas, gwerthfawrogwn harddwch y cread.
*Artist yw’r Hydref ym mrigau y coed,
Yn newid eu lliwiau drwy newid eu hoed* - Dafydd Morris.

Boed i Dduw ein dysgu i beidio a chymryd popeth yn ganiataol gan anghofio am anffodusion y byd rhyfelgar, treisgar hwn.

Cofiwn a bendithiwn yr aelodau a’n cyfeillion sydd dan unrhyw anhwylder, gan eu cynnwys yn ein gweddïau. Bu’r Fns.Myfanwy Jones, Gwernydd, yn yr Ysbyty ond da oedd clywed ei bod gartref gyda’i merch erbyn hyn, Cofiwn hefyd y Br. Emlyn Evans sydd gartref yn gwella wedi triniaeth.

Cynhaliwyd Seiat wythnosol ar nos Fawrth. Hyfryd oedd gweld tri aelod newydd yno, sef Rhiannon, Owen John a Megan.

Bu’r bobl ifanc wrthi’n ddygn fel arfer yn gofalu am y Banc Bwyd, trefnu Blychau Nadolig ar gyfer plant anffodus y Trydydd Byd, yn ogystal ag ymarfer ar gyfer Diolchgarwch yr Ysgol Sul.

Ar y 10fed, bu ‘Cymdeithas y Chwiorydd’ yn gwrando ar adloniant gan blant Ysgol Llanllechid. Bu’n noson i’w chofio gan lwyf fwynhau gwrando ar eitemau ar Offeryn Cerdd, Adrodd a Chanu. Roedd blynyddoedd 5 a 6 wedi astudio ‘themâu dŵr ‘, gan gynnwys ‘ Cantre’r Gwaelod’, Tryweryn a’r Golomen yn hanes Noa, mewn cerddoriaeth. Bu’r croeso a’r lluniaeth yn dderbyniol iawn.

Yr Ysgol Sul. Anna fu’n ledio ‘ emyn y plant’ y mis hwn. Roedd y Gwasanaeth Diolchgarwch yn un arbennig iawn gyda phwyslais ar y gair DIOLCH, gair byr sy’n golygu cymaint. Darparwyd lluniaeth gan athrawon yr Ysgol Sul a gwnaethpwyd casgliad at elusen Cymorth Cristnogol. Diolchwn i bawb am eu presenoldeb a’u cyfraniadau helaeth o £80.

Diolchgarwch Yn ôl traddodiad cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch ar y 3ydd Llun o’r mis. Bu’r gwasanaeth boreol dan ofal Minnie a phregeth yr hwyr gan y Parchedig John Owen.

Côr y Dyffryn.

Bu’r Côr yn ymarfer bob nos Sul ar gyfer y Nadolig, o dan hyfforddiant trylwyr Menai.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwn Mrs Medi Williams ar gyrraedd pen-blwydd arbennig yn 85 oed. Mae mor heini ag erioed!!

Dyma fis olaf y Parchedig Geraint Hughes, ein Gweinidog wedi 16 mlynedd ac wyth mis gyda ni. Cynhaliwyd cyfarfod ymadawol mewn gwerthfawrogiad iddo am ei wasanaeth i’r tair eglwys dan ei ofalaeth yng nghapel Carmel, Llanllechid ar brynhawn Sul y 27ain. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Br. Joe Hughes, gyda siaradwyr o’r tair eglwys yn cymryd rhan. Cyflwynwyd y Gweinidog â thysteb gan y Br. Neville Hughes (Trysorydd yr Ofalaeth). Gweinyddwyd y sacrament o Swper yr Arglwydd, a darparwyd lluniaeth ysgafn gan wragedd eglwysi’r ofalaeth. Estynnwyd pob dymuniad da i’r Gweinidog ac i Ann, ei wraig ar eu hymddeoliad.

Cydymdeimlwn â’r Br. Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, sydd wedi colli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar, sef, y Br. Dei Parry, Mynydd Llandygái.

Adnod y mis (Er cof am Brenda Owen, a fu farw Tachwedd 2012) ‘Pwy all ddod o hyd i wraig fedrus? Y mae hi’n fwy gwerthfawr na gemau’ (Diarhebion 31. 10)

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol – 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid
Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.

Anfonwn ein cofion at bawb sy’n dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Y mae’n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Llun am 9.15am.

Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar fore Sul, 6 Hydref o dan arweiniad y Parchedig Christina McCrea. Daeth cynulleidfa dda i’r gwasanaeth gan gynnwys Côr Ysgol Penybryn, a mawr yw ein diolch iddynt am eu cyfraniad rhagorol i’r gwasanaeth. Diolchwyd i bawb a ddaeth i’r Eglwys fore Sadwrn cyn y gwasanaeth i lanhau ac addurnio’r adeilad cyn y Sul arbennig hwn.

Cinio Diolchgarwch

Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch aeth nifer helaeth o’r gynulleidfa i fwynhau cinio “dydd Sul” yng Nghaffi Coed Y Brenin. Diolch o galon i Gwenda Bowen am drefnu’r achlysur ar fyr rybudd. Roedd pawb wedi mwynhau’r wleda diolch yn fawr i staff Coed y Brenin am baratoi gwledd mor flasus.

CAPEL BETHANIA BETHESDA

Tachwedd

17 : Parch Gwynfor Williams.

Rhagfyr

01 : Mr. Dafydd C. Thomas.
15 : Parch. Gwynfor Williams.

Oedfaon am 5.30. Croeso cynnes i bawb.

Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

Oedfaon i ddod

Tachwedd

24. Parch John Owen (Rhuthun)

Rhagfyr

01 Mr Oswyn Evans
08 Parch Dafydd Lloyd Hughes
15 Gwasanaeth y plant (bore)
Parch D.C.Williams (5.00)

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA

‘LLENWI’R CWPAN’

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o’r gloch a
hanner dydd

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Cylch Meithrin Gerlan Codi arian
Cychwynnodd blwyddyn ysgol 2013 – 2014 yn wych i gylch Meithrin Gerlan. Gyda 15 o blant ar y llyfrau, y nifer mwyaf erioed, mae pobl yr ardal unwaith eto wedi dangos eu haelioni wrth gefnogi y rhai sydd wedi bod yn tu hwnt o brysur yn codi arian i’r Cylch.

Codwyd yn agos i £350 pan dderbyniodd Mrs Susan Williams a Mrs Angela Speddy yr her o lithro i lawr y Weiren Wib (y “Zip Wire”) ym mis Gorffennaf. Disgrifiodd y ddwy y profiad fel rhywbeth ‘ofnus ond bythgofiadwy’ ac ‘roeddynt yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafwyd.

Yna, yn ystod yr haf penderfynodd Mr Dylan Williams godi arian i’r Cylch drwy gerdded i fyny’r Wyddfa gan gario bonyn coeden ar ei ysgwyddau. Cododd yntau’r swm arbennig o £300.

Diolch yn fawr iawn i’r tri ohonoch - mae’r staff, aelodau o’r pwyllgor ac wrth gwrs y plant yn ddiolchgar iawn am eich ymdrech. Diolchwn hefyd i Grŵp Pesda Roc Cyf am eu rhodd o £50. Bydd y rhan fwyaf o’r arian yn cael ei ddefnyddio i brynu nwyddau newydd i’r Cylch.

Ffair Nadolig Clwb Meithrin Gerlan
Hoffwn atgoffa pawb am y Ffair Nadolig flynyddol, sy’n cael ei chynnal yn y Caban ar 30 Tachwedd. Bydd yn cychwyn am 11.00 yb ac yn gorffen am 1.00 yp. Pris mynediad yw £1.00 (plant am ddim) ac yn y pris cewch lanedd a mins pei. Roedd y ffair yn llwyddiannus dros ben y flwyddyn diwethaf ac rydym yn gobeithio y bydd yr un mor llwyddiannus y flwyddyn yma - os nad yn well! Bydd amrywiaeth o stondinau - stondin Ffiona Sherlock yn dychwelyd, a hefyd stondin sebonau Popeth Neis yn ogystal â stondin Dwylo Pysur. Bydd llawer o stondinau i’r plant, megis peintio wynebau a stondin tatŵ, ac wrth gwrs caiff y plant gyfle i weld y dyn ei hun, Siôn Corn.

Dewch draw i gefnogi – bydd rhywbeth at ddant pawb.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Lisa Jên a Martin Hoyland, Gwernydd, ar eu llwyddiant gyda'u grŵp, 9Bach. Yn ddiweddar mae 9Bach wedi clywed y bydd eu hail albwm, sef 'Tincian', yn cael ei rhyddhau gan Realworld Records, cwmni sydd yn enwog iawn am ryddhau cerddoriaeth byd eang, Cafodd y cwmni ei sefydlu gan Peter Gabriel. Golyga hyn fod caneuon 9Bach, sy’n cynnwys caneuon am Chwarel y Penrhyn, y Carneddau, a'r fro yn cael eu clywed dros y byd i gyd!! Bydd 'Tincian' yn cael ei ryddhau ym mis Ebrill. Mae'r band newydd ddychwelyd o Gaerdydd ble cawsant eu dewis i gloi Gŵyl Womex, sef gŵyl fawr sy’n rhoi llwyfan i gerddoriaeth o bob rhan o'r byd, Yn dilyn eu perfformiad yn Womex bu 9Bach yn teithio o amgylch Cymru gyda band o'r Congo - Les Tambours De Brazza.

Yn yr ysbyty
Rydym yn gyrru ein cofion at Heather, Stryd y Ffynnon, sydd yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon. Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan iti, Heather.

Adref o'r ysbyty
Da yw gweld Myfanwy Jones, Gwernydd, yn ei hól gartref wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Mae'n braf iawn gweld ei bod yn gwella, ac allan o gwmpas yr ardal unwaith eto. Cymrwch ofal yn awr, Myfanwy, a chymryd pethau'n ysgafn.

Llongyfarchiadau
Rydym yn llongyfarch Mari Emlyn ac Iwan Charles, Stryd Hir, ar enedigaeth mab bychan, Arthur Emlyn. Pob hwyl ichi fel teulu!

Gwella
Yn ddiweddar bu Vera Hughes, Ciltrefnus, yn yr ysbyty. Braf yw nodi ei bod hi adref bellach, ac yn gwella. Rydym yn gyrru ein cofion atoch, Vera, ac yn dymuno gwellhad llwyr ichi.

Cydymdeimlo
Rydym yn gyrru ein cydymdeimlad i Megan a Len Williams, Ffordd Gerlan, yn eu profedigaeth o golli brawd Megan, y diweddar Tom Owen, oedd yn trigo yn Llanfairpwll.

Adref
Braf yw gweld Margaret Williams, Tan Treflys, yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Rydym i gyd yn gyrru ein cofion atoch, Margaret, ac yn dymuno gwellhad llwyr ichi.

Parti
Ddechrau'r mis dathlodd Jane Jones, Gwernydd, ei phen-blwydd. Er mwyn dathlu'r achlysur, trefnodd Gwenfair, ei merch, barti iddi, a hynny heb yn wybod i Jane. Cafodd nifer ohonom, yn deulu, ffrindiau, a chymdogion, o'r ardal a thu hwnt, wahoddiad i Westy Meifod, Bontnewydd, i ddathlu gyda Jane. Mae Gwenfair yn byw a gweithio yn Efrog Newydd erbyn hyn, ac roedd wedi trefnu'r cyfan o'r fan honno, ond wedi dod adref ar gyfer y parti. Mae Gwenfair yn awr yn aros yn y wlad hon am fis cyn dychwelyd i Efrog Newydd. Braf iawn oedd gweld mab Jane, Aneurin, hefyd wedi dod adref gyda'i deulu i ddathlu penblwydd ei fam. Cafwyd dathliad ardderchog ym Meifod, a chafodd pawb, yn enwedig Jane ei hun, brynhawn bythgofiadwy. Penblwydd hapus iawn, Jane, a Gwenfair, hefyd, gan ei bod hithau yn cael ei phen-blwydd ar yr un diwrnod â'i mam. Llongyfarchiadau mawr i chi!

Gwobr arbennig
Yn ddiweddar bu seremoni fawr i wobrwyo *Eich Pencampwr*, yng Ngwesty San Siôr yn Llandudno, o dan arweiniad Arfon Haynes Davies. Roedd y gwobrau hyn wedi eu noddi gan Scottish Power a Trinity Mirror Gogledd Cymru, ac yn cael eu rhoi i unigolion a grwpiau sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'w cymunedau. Gwych oedd

gweld y wobr am y grŵp yn cael ei rhoi i Eleanor Jones, Bryn Caseg, a'i chyfeillion, sy'n rhedeg Apêl Eleanor. Mae'r grŵp wedi ei sefydlu gan Eleanor i godi arian i brynu offer i Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd, ac wedi bod yn brysur iawn dros y flwyddyn ddiwethaf yn codi miloedd o bunnau i gynorthwyo'r ward a'i staff yn eu gwaith caled o gynorthwyo cleifion sy'n dioddef o gancr. Mae'r Apêl yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda sawl gweithgaredd wedi ei drefnu yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau mawr i Eleanor a'r tîm gweithgar, a diolch mawr i bawb o'r ardal sy'n cefnogi'r Apêl.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Cylch Meithrin Llanllechid

Diolch
Diolch yn fawr i Ddwyllo'r Enfys ac i'r Royal Oak am eu cyfraniadau.

Bingo
Diolch i bawb a ddaeth atom i gefnogi'r Bingo a gynhaliwyd yn y Clwb Criced.

Cydymdeimlo
Daeth diwedd cyfnod yn hanes teulu a ymfudodd o Dde Cymru yng nghanol y ganrif ddiwethaf, gyda'r newydd am farwolaeth brawd a chwaer o fewn wythnosau i'w gilydd.

Roedd y teulu clos yma wedi sefydlu yn yr ardal ac wedi chwarae rhan lawn ym mywyd y pentref ers hynny. Roedd eu teuluoedd yn agos iawn at galon Bill a Doreen. Anfonwn ein cydymdeimlad at Margaret Hughes, Hilary a Gaynor a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli William Hughes (Bill Sowth), Bron Bethel. Cymeriad tawel oedd Mr Hughes a fu fu'n ymladd ei waeledd yn ddewr ers amser. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 6, yn 84 mlwydd oed.

Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Carmel ac yna yn yr Amlogfa ym Mangor ar 14 Hydref.

Profedigaeth
Derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Mrs Doreen Watts, Maes Bleddyn, yn 89 mlwydd oed, wedi iddi hithau fod yn ymladd salwch ers peth amser. Wynebodd dreialon bywyd yn ddewr. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar ddiwrnod olaf mis Hydref. Cynhaliwyd gwasanaeth

yng Nghapel Carmel ar 5 Tachwedd ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad at Julie, Pearl, Hefina a'r holl deulu yn eu galar.

Diolch

Dymuna Mr Vernon Davies, Awelon, `Rynys, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ef a'r teulu ar achlysur marwolaeth ei wraig Iris. Fe drosglwyddwyd £515.30c tuag at gronfa Cystic Fibrosis er cof am Mrs Davies. Diolch i bawb am eu haelioni.

Dymuna Rheinallt Davies, Hen Barc, ddiolch am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed yn ddiweddar.

Dymuna Melanie Tugwell, Tŷ Capel Carmel, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ddatlu ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Brysiwch Wella

Da cael adrodd fod Gwilym Williams Ffordd Llanllechid adref o'r ysbyty wedi llawdriniaeth. Yn anffodus ymhen ychydig wedyn fe gafodd ddamwain ffordd yn ardal Bryn Bella. 'Roedd yn ddamwain ddrwg, ond da cael adrodd ei fod yn gwella o'i anafiadau.

Brysia Wella

Dyma'r neges hefyd i Nell Medi Hughes, Lon Groes, merch Lowri Owen a Mike Hughes. Mae Nell, sy'n bedair oed, wedi derbyn llawdriniaeth ar ei chlun gan ei bod yn dioddef o 'hip dysplasia'. Derbyniodd y llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen. Mae'r teulu am ddiolch i bawb a ddymunodd yn dda i Nell drwy anfon cardiau, anrhegion a negeseuon caredig ati.

Marwolaeth Frawychus

Anfonwn ein cydymdeimlad at y Cynghorydd Pearl Evans yn dilyn y newyddion syfrdanol am farwolaeth ei gŵr Evan, a'r ddau ohonynt wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbytai dros yr wythnosau diwethaf.

Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid Daerh criw da i gyfarfod diwethaf y Clwb Hanes pan fu cryn drafod ar siopau'r ardal. Daeth Lois Jones o Amgueddfa Gwynedd i'r cyfarfod gan amlinellu'r modd y gallai'r Amgueddfa fod o gymorth i ddosbarthiadau a chlybiau hanes. Addawodd geisio rhoi benthg peiriannau recordio a pheiriant sganio lluniau, a fyddai'n hwylyso'r gwaith o hel yr atgofion yn arw. Addysg aiff â'n bryd yn y cyfarfod nesaf, a hynny ar nos Fercher, 27 Tachwedd am 7.00 o'r gloch yn Festri Carmel. Croeso i chwi ddod i rannu eich gwybodaeth am hanes Rachub a Llanllechid.

Capel Carmel, Llanllechid

Bedyddio

Bedyddiwyd Siôn Thomas a Rhiannon Fflur ar bnawn Sul, 13 Hydref gan y Parch, Geraint Hughes. Mae Siôn a Rhiannon yn blant i Tom ac Amy Gowan, Caerdydd, ac Amy'n ferch i Ron a Wendy, Bron Arfon. Braf oedd cael croesawu Amy a'i chwaer Laura i Garmel unwaith eto, dwy a fu tu hwnt o ffyddlon i'r Ysgol Sul a gweithgareddau'r bobl ifanc.

Wythnos yn ddiweddarach bedyddiwyd Llinos a Michael Gashe, Tan y Bryn, Llanllechid, gan y Parch. Siôn Aled Owen, Wrecsam. Mae Megan yn un o blant ffyddlon yr Ysgol Sul. Dymuniadau gorau a phob bendith i'r tri plentyn a'u teuluoedd.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Cafwyd cynulleidfa fawr i wasanaeth diolchgarwch y plant a'r bobl ifanc eleni. Diolch i'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran a gwneud eu gwaith mor ardderchog. Diolch i athrawon yr Ysgol Sul ac arweinydd Cylch Ti a Fi am eu dysgu. Cyflwynwyd y casgliad o £135 tuag at Apêl Haiti Cymorth Cristnogol. Braf oedd cael cwmni'r Parch Geraint Hughes a'i briod Anne yn y gwasanaeth. Diolchwyd iddo am ei waith ymysg y bobl ifanc a chyflwynwyd rhodd iddo, a thusw o flodau i Mrs Hughes ar ran aelodau'r Ysgol Sul. Braf oedd gweld Mrs Gwenan Davies Jones yn y gwasanaeth ac fe gyflwynwyd blodau iddi hithau am ei chefnogaeth barod i'r Ysgol Sul dros y blynyddoedd. Cyflwynodd Mrs Davies Jones rodd i Mr Hughes fel arwydd o ddiolch am gynnal gwasanaethau boreol yn yr ysgol.



Y plant gyda'r Parch a Mrs Hughes

Diolch

Diolch unwaith eto i Mr a Mrs Geraint Jones, Royal Oak, am eu rhodd caredig i gapel Carmel yn ddiweddar. Nid dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn rhodd gan Gyfeillion y Royal Oak.

CAPEL CARMEL

Tachwedd

17 Parch. Gwynnaf Jones 5.00
24 Parch. Gwynfor Williams 5.00
Rhagfyr
01 Parch. T. Roberts 2.00
08 Y Parch. D.C.Williams 5.00
15 Oedfa Nadolig 5.00

Ysgol Sul am 10.30am
Dwylo Pysur nos Wener am 6.30pm

Croeso Cynnes i Bawb

Cardiau Nadolig

Dymuna Nansi a Gareth Hughes, Manod, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gyfeillion a chymdogion. Ni fyddant yn anfon cardiau eleni.

Yr un yw dymuniad Vernon Davies, Awelon, yr Ynys. Ni fydd yntau ychwaith yn anfon cardiau eleni.

CAPEL BETHEL

Gwasanaethau:

Hydref
20 Mr Alun Wyn Rowlands
27 Parch. Dafydd Job
Tachwedd
03 – Parch. Eleri Lloyd Jones
10 – Gweinidog
17 – Mr Islwyn Hughes
24 – Parch. Huw Pritchard.

Oedfaon am 2.00pm.
Croeso cynnes i bawb.

Clwb Dwylo Pysur Carmel, Llanllechid

Noson Goffi

Nos Wener

24 Tachwedd
am 6.30.

Yr elw at achosion da.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Cartref Newydd

Croeso cynnes i Ioan Doyle a Helen i'w cartref newydd yn Tŷ Ffynnon, 14 Braichmelyn. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno.

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Ioan wedi gwneud enw iddo'i hun fel dringwr o fri, ac mae rhai yn credu mai Ioan ydi'r dringwr Cymraeg gorau erioed. Roedd yn braf ei weld yn ddiweddar ar Sioe Tudur Owen ar S4C.

Anffawd

Cafodd Mrs Rita Williams, 1, Blaen y Cae, godwm yn ddiweddar. Gobeithio ei bod wedi gwella erbyn hyn. Anfonwn ein cofion ati.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Mrs Dolores Edwards, 6 Gernant, Esther ei merch a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli ei phriod George, tad Esther a thaid annwyl iawn. Cydymdeimlwm hefyd â'i frodyr a'i chwiorydd yn eu colled o frawd annwyl.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái
☎353886

Gwaeledd

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed nad oedd Mrs Olwen Lytham wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar ond gobeithiwn ei bod gartref erbyn hyn ac yn gwella'n araf. Anfonwn ein cofion ati a hefyd at y cleifion sydd yn wael yn eu cartrefi a'r rhai sydd yn aros am lawdriniaeth, sef Eric a Nerys Coleman, Jim a Beryl Hughes, Cassie Tindall, Dr Pam Jones, Beryl Williams a Dorothy Proudley-Williams – brysiwch wella!

Bingo

Cawsom noson o Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, Medi 15. 'Roedd y ffyddloniaid i gyd yno a Pauline a Raymond yn reit brysur fel arfer yn galw'r rhifau, a'r merched yn y gegin yn paratoi paned a bisgedi. Gwnaed elw sylweddol i'r Neuadd – bydd croeso cynnes i bawb ar nos Fawrth, 19 Tachwedd.

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch dwy o'r pentref fu'n lwcus iawn yn ennill gwobrau mis Hydref sef Mrs Muriel Owen a Mrs Pauline Edwards. Mae'n braf gweld ffrindiau neu rhywun yr ydych yn eu hadnabod yn ennill weithiau. Go dda ferched.

Plant Ysgol Llandygái

Roedd yr eglwys dan ei sang fore Iau, 24 Hydref, ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch y plant. Roedd y plant i gyd wrth eu boddau yn cael cymryd rhan, a'u rhieni yn falch o gael bod yn bresennol, gydag aelodau o'r eglwys wedi ymuno yn y gwasanaeth hefyd. Diolch i'r pennaeth, y staff a'r plant am ddal i gadw cysylltiad â ni yn Sant Tegai.

Mae'r dirprwy bennaeth yn gwneud enw iddo'i hun hefyd ym myd y canu – mae i'w glywed yn fynych iawn ar y radio – daliwch ati Elfed.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs Sue Matthews, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Llwyf wellhad i chi, Sue. Rydym yn cofio hefyd at Mrs Jane Couch, Mr Gwynne Edwards a Mr Harry Gross sydd yn wael yn eu cartrefi.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at John a Nia Bagnall yn eu profedigaeth o golli mam John yn Ysbyty Gwynedd ar 10 Hydref, sef Mrs Dilys Bagnall, Caergybi gynt, yn 86 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Mercher, 16 Hydref, yng Nghapel Maeshyfyrd, a'r gladdedigaeth yn dilyn ym Mynwent Maeshyfyrd. Cydymdeimlwn hefyd â Derek, Elaine, Robert a'u teuluoedd yn eu galar.

Diolch

Dymuna John, Nia a theulu'r ddiweddar Mrs Dilys Bagnall, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolch arbennig i'r Parchedig John Matthews a Mrs Rhian Llewelyn Jones am fynd i'r angladd drwy'r fath wynt a glaw – bendith arnoch.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Callum Metcalfe fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar ddydd Sul, 17 Tachwedd, yn ddeunaw mlwydd oed. Hwyl fawr i ti, Callum. Tybed a oes yna barti ar y gweill? Byddi'n siwr o gael digon o anrhegion a chardiau drwy'r post.

Gosber y Cynhaeaf

Nos Sul, 6 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf o dan arweiniad y ficer, y Parchedig John Matthews a Christina, gyda Geraint Gill wrth yr organ. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n hardd iawn gan Hazel, Nerys a Hefina a'r merched eraill, a diolch o galon iddynt i gyd. Croesawodd y Ficer bawb i'r neuadd ar ôl y gwasanaeth i gael coffi a sgwrs. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymrodd ran yn yr eglwys, ac i Nerys a'i ffrindiau a fu'n gweini yn y gegin.

Te Bach

Cynhaliwyd Te Bach yn eglwys y Santes Fair, Tregarth, ar 22 Hydref a daeth nifer dda o'r tair eglwys yno. Roedd Sue, Rosemary, Linda a Rhian wedi bod yn brysur yn gwneud y teisennau blasus ac anodd iawn oedd dewis beth i'w gymryd. Diolch yn fawr i chwi, ferched, ac i John Matthews am fod yng ngofal y raffl, - cawsom amser difyr iawn.

Bingo

Llwyddiant mawr fu'r noson Fingo ar nos Fawrth, 22 Hydref, yn Neuadd Talgai, a gwnaed elw o £169.50 i'r eglwys. Roedd aelodau o'r tair eglwys wedi dod i'r neuadd a rhai o'r pentref hefyd. Diolch arbennig i Pauline a Raymond am drefnu'r noson, i bawb a roddodd help llaw, i'r merched yn y gegin, i'r cyfeillion am y gwobrau, ac i bawb a oedd yn bresennol. Mae'n dda fod Ceri wedi dod i helpu ei mam a'i nain i ennill yr holl wobrau!

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Profedigaeth

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth Joan Fox, 63 Bro Emrys, yn ystod mis Hydref. Hoffem estyn ein cydymdeimlad at Malcolm a'r teulu yn eu colled.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Julie Hughes, 25 Bro Emrys. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at ei phriod, Dafydd, ei mab, Callum, a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr.

Damwain

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Ifan Jones, 1 Dolhelig, yn dilyn y ddamwain ddrwg a gafodd ar y beic yn ddiweddar. Gobethio ei fod yn teimlo'n well erbyn hyn. Dymuna Ifan a Barbara ddiolch i bawb am eu consyrn a'u caredigrwydd yn dilyn y ddamwain.

Gwella Cartrefi

Dymunwn yn dda i bawb sydd yn gorfod gadael eu cartrefi dros dro er mwyn cael gwneud gwelliannau sylweddol i'w tai. Gobeithio y cewch ddod yn ôl adref yn fuan!

Eglwys Maes y Groes, Talybont

O'r Ysbyty

Croeso gartref i Sue Matthews yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Da deall ei bod yn gwella'n foddhaol.

Te Nadolig

Cynhelir Te Nadolig ar ddydd Sadwrn 30 Tachwedd yn yr Ysgoldy o 2.00-4.00. Croeso cynnes i bawb.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor
LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Bingo a Noson Goffi

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y Noson Goffi a Bingo yn y Ganolfan yng Nglasinfryn ar 4 Hydref. Gwnaed elw o £105 tuag at Apêl Eleanor Jones. Cynhelir y Bingo nesaf ar 15 Tachwedd gyda'r elw yn mynd tuag at Gymdeithas Strôc Gwynedd. Bydd y noson yn dechrau am 7.30, yn y Ganolfan. Croeso cynnes i bawb - dowch draw am noson o hwyl wrth godi arian at achosion da !

Clwb Cant y Ganolfan - Hydref

£20 - 80 - Christina McCrea
£10 - 140 - Carol Roberts
£ 5 - 62 - Idwal a Gwyneth
£ 5 - 42 - Beryl Williams

Capel Bethlehem

Tachwedd

17 Parchg. Harri Parri, Caernarfon
24 Parchg. John Owen, Rhuthun

Rhagfyr

01 Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni ;
08 Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
15 Oedfa Nadolig gyda phlant yr Ysgol Sul
22 Parchg. Ieuan Lloyd, Llanfairpwll ;
29 Parchg. Trefor Jones, Caernarfon.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul

Diolch i'r plant am gynnal Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol ar ddydd Sul. 20 Hydref. Diolch hefyd i Anti Barbara, Anti Enid, Anti Angharad ac Yncl Nev am helpu. Gwnaed casgliad tuag at Apêl Haiti.

Ymdeoliad ein Gweinidog

Wedi cyfnod o 16 mlynedd ac 8 mis yn ein gwasanaethu fel un o'r dair eglwys yng Ngofalaeth Bro Dyffryn Ogwen, rydym wedi gorfod ffarwelio â'r Parchedig Geraint Hughes a fydd yn ymddeol i Bwllheli. Bu aelodau'r Capel a Bwrlwm Bethlehem yn ffarwelio ag ef a Mrs. Anne Hughes, mewn swper yng Ngwesty'r Four Crosses, Porthaethwy ar nos Fercher, 30 Hydref. Cafwyd noson ardderchog! Diolch i Enid Lloyd Davies am drefnu'r noson gyda chymorth Barbara Jones.

Ar y Sul cyn hynny, yng Nghapel Carmel Llanllechid, cynhaliwyd Oedfa Arbennig ar achlysur yr Ymdeoliad. Trefnwyd yr oedfa gan Joe Hughes, Carmel, a hyfryd oedd cael cyfraniadau gan aelodau o'r tair eglwys. Cymerwyd rhan gan bedair o chwiorydd Bethlehem sef Enid Lloyd Davies, Barbara Jones, Jean O. Hughes ac Angharad Hughes, gyda chyfarchion ar lafar ac ar gân gan Neville Hughes. Mwynhawyd te yn festri Carmel ar ôl yr oedfa. Prynhawn cofiadwy iawn, yn enwedig i'r Parchedig a Mrs. Geraint Hughes a'r teulu. Ymdeoliad hapus iawn i chwi!

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 6 Tachwedd.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd y cyfarfod ar 9 Hydref o dan lywyddiaeth Mrs Sarah Flynn. Cawsom gwmpeini Mr Colin Goodey fel gŵr gwâdd. Wel! Roedd ganddo wledd o luniau o Affrica lle bu ef a'i wraig ar ymweliad. Bu'r ddau yn athrawon, ond penderfynasant gymryd ymdeoliad cynnar er mwyn cael cyfle i deithio. Syniad gwych, os yw'n bosibl ynte!

Eisiau dringo mynydd Kilimanjaro oedd y ddau a chael cyfle i weld ymfudiad blynyddol y Wildebeest. Mae hyn yn digwydd yn y gwanwyn. Bydd tua 2,500 o'r Wildebeest yn ymgynnull i deithio 1,800 o filltiroedd i chwilio am borfeydd gwell dros fisoedd yr haf. Mae nifer o anifeiliaid eraill yn ymuno â hwy yn yr ymfudiad.

Roedd y disgrifiad a'r lluniau a gawsom yn anhygoel, a gallem ddychmygu'r sŵn carnau fel daeargryn, y llwch a'r olygfa - profiad bythgofiadwy. Ymlaen â Colin a'i wraig wedyn i Danzania ac i'r Parc Cenedlaethol yno i ddarparu ar gyfer dringo Kilimanjaro. Diddorol oedd gweld y newid yn y tyfiant wrth iddynt ddringo am bedwar diwrnod ac yna cyrraedd y copa mewn rhew ac eira.

Mwynhawyd cwmni Colin yn fawr iawn a diolchwyd iddo gan Dr Ann Illsley. Cawsom baned a chacen pen-blwydd i ddathlu pen-blwydd arbennig Elizabeth. Diolch i Mair am y gacen ac i Carol a Margaret Griffith am ddarparu'r te.

Dathlu

Llongyfarchiadau i Barry ac Ann Sanderson, 4 Waen Wen, ar ddathlu eu pen-blwydd priodas aur yn ddiweddar.

Gwaith wedi dechrau

Wrth i’r Llais fynd i’r wasg, da oedd gweld bod Cyngor Gwynedd wedi dechrau gweithio ar y ffordd sy’n arwain o’r brif ffordd trwy Lasinfryn at y llwybr cyhoeddus uwchlaw'r Ganolfan a’r Hen Ysgol.

Mae problem wedi bod gyda’r ffordd hon ers sbel. Pan mae’n bwrw glaw yn drwm yna mae dŵr wedi bod yn rhedeg i lawr y ffordd o’r cwlfert ger y giât sy’n arwain i’r llwybr cyhoeddus, gan greu trafferthion wedyn ar y lôn fawr.

Gobeithio y bydd y gwaith sy’n cael ei wneud yn datrys y broblem. Mae Cadeirydd Pwyllgor Rheoli’r Ganolfan, Elfed Roberts, wedi bod yn dwyn pwysau ar y Cyngor i ddechrau ar y gwaith ac mae’n braf gweld fod ei ddyfalbarhad wedi dwyn ffrwyth.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Parchu Pentir

Yng nghyfarfod diwethaf grŵp Parchu Pentir yn y Vaynol Arms, Pentir ar 8 Hydref fe drafodwyd y pynciau canlynol:

Cyfyngiad Cyflymder ar yr A4244

Mae damwain wedi digwydd ar y lôn ger Bryn Glas rhwng car a thractor, wedi ei hachosi gan yrru’n esgeulus. Mae’r heddlu’n ymwybodol. Rydym wedi cysylltu â’r Cyngor Sir ynglŷn â’r ddamwain a hefyd i ofyn a ydynt wedi bod yn monitro effaith y cyfyngiad cyflymder ymgynghorol. Mae’r Cyngor wedi ymateb gan ddweud bod y cyfartaledd cyflymder wedi gostwng o 48mya i 42mya. ‘Rydym wedi gofyn am fwy o fanylion, gan fod ein profiad yn awgrymu bod canran sylweddol o draffig yn parhau i yrru’n rhy gyflym.

Prosiect Cymunedol

Mae’r grwp wedi gwneud arolygiad amgylcheddol o’r safle. Ar sail y nifer o rywogaethau o goed yn y gwrych, mae’n debyg fod y lôn wedi bod yma am 600-700 mlynedd. ‘Rydym yn chwilio am rywun i wneud y gwaith o glirio’r safle.

Llifogydd

Rydym yn parhau i ddisgwyl am adroddiad gan y Cyngor wedi eu hymweliad â Phentir mis diwethaf.

Teithiau cerdded lleol

Fe drefnwyd taith gerdded arall ar 19 Hydref yn ardal Betws y Coed. Diolch i Ken ac Evelyn am drefnu'r daith yma eto!

Casglu Ysbwriel:

17 Tachwedd, 11.00 o’r sgwâr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Mawrth 12fed Tachwedd, 7.30 yn y Vaynol Arms

Faciwî’n dod yn ôl i 'Rallt Uchaf

Ychydig ddyddiau’n ôl wrth arddio gwelsom ddwy wraig yn cerdded nôl a mlaen ar y ffordd ger y tŷ ac yn amlwg yn trafod yr adeilad. Ar y cychwyn roeddem yn amheus iawn ohonynt gan eu bod â diddordeb arbennig yn y tŷ. Bu inni fentro gofyn iddynt oedd rhywbeth o’i le ac oedd modd inni eu helpu.

Dyna pryd y dywedodd yr hynaf o’r ddwy ei bod wedi dod i ddangos ’Rallt Uchaf i’w merch gan iddi fod yn byw yn y tŷ am gyfnod. Bu inni estyn croeso i’r ddwy i’r tŷ, a thros baned cawsom hanes diddorol Joan Edwina Bradley a symudodd o Gilgwri (Wirral) i Bentir pan yn bedair oed yn ystod yr Ail Ryfel Byd fel faciwî.

Dywedodd Joan, sydd nawr yn 77 oed, bod ei rhieni’n poeni’n fawr am ei diogelwch hi a’i chwaer fach Rita oherwydd y bomio dros Lerpwl. Roedd y teulu’n adnabod Cymro oedd yn hannu o Bentir - Evan Thomas - a threfnodd yntau i’r plant aros yn 'Rallt Uchaf fel faciwîs. Yn ddiddorol, symudodd nain y plant gyda nhw er mwyn edrych ar ôl y plant.

Er bod Joan yn adrodd bod gadael ei mam a’i thad wedi bod yn boenus roedd presenoldeb ei nain wedi lliniaru ychydig ar bethau. Roedd rhan helaeth o’i hatgofion yn rhai melys gyda darluniau byw yn ei meddwl o blentyndod hapus iawn. Cofiai amser cynhaeaf, gan chwarae ar ben y das wair, casglu mwyar duon ac eirin gwyllt. Byddai’n cerdded i Ysgol Rhiwlas gan gynhesu o flaen tanllwyth o dan yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ganddi atgofion byw o chwarae ar fuarth yr ysgol a gwneud ffrindiau gydag Eirlys Gordon sydd yn dal i fyw yn Rhiwlas.

Mae’n cofio un digwyddiad amhleserus yn fyw iawn. Un diwrnod roedd yn cerdded i lawr y ffordd pan gyfarfu â dau fachgen. Bu iddynt gychwyn gwneud hwyl am ei phen a dyma’r ddau yn rhwygo botymau ei chot a’u taflu dros ben y wal i’r cae. Dyna’r unig dro iddi deimlo’n anhapus a chwenychu am fynd adref at ei theulu.

Daeth yn rhugl yn y Gymraeg yn fuan iawn, gan nad oedd pobl yr ardal yn gyfforddus yn y Saesneg a chan fod ei ffrindiau yn siarad Cymraeg. Mae Joan yn gallu ynganu enwau lleol yn berffaith o hyd er bod ei Chymraeg wedi diflannu erbyn hyn. Mae’n cofio iddi gychwyn siarad Cymraeg efo’i mam a’i thad ac iddynt ei dwrdio’n iawn gan nad oeddynt yn ei deall.

I rai ohonoch sydd yn gyfarwydd â 'Rallt Uchaf mae golygfa eang dros y môr. Cofia Joan bawb yn sefyll tu allan i’r tŷ ar nosweithiau braf yn edrych allan dros y môr ac yn gweld awyrennau yn ymladd yn yr awyr wrth i’r Almaenwyr geisio bomio porthladd Lerpwl. Adroddai Joan nad oedd yn poeni dim am ei rhieni oedd yn byw yng nghyffiniau Lerpwl, gan nad oedd plentyn yn deall yr hyn oedd yn mynd ymlaen. Mae’n cofio i un awyren ddod i lawr yn yr ardal a phobl yn tyrru yno i weld y llanast.

Byddai mam a thad Joan yn ymweld o bryd i’w gilydd ar brynhawn Sadwrn. Daliendrên o Lerpwl a byddai hi, ei nain a’i chwaer yn eu cyfarfod yn Felin Hen. Arhosai ei rhieni yn Nhafarn y Faenol a byddent yn dychwelyd ganol dydd y diwrnod canlynol.

Mae’n rhaid bod y tair o Loegr wedi dioddef gyda’r tywydd i fyny yn 'Rallt Uchaf, achos bu iddynt orfod symud i lawr i’r pentref yn gaeaf ac ymgartrefu ym Mryn Awel. Oddi yno y bu iddynt ddychwelyd i Gilgwri ar ôl dros ddwy flynedd yma yn ardal Pentir.

Byddwn yn falch pe bai rhywun yn gallu ysgrifennu ychwanegiad i’r stori fer yma. Gall bod rhywrai yn cofio Joan a’i theulu, yn gwybod am leoliad damwain yr awyren, neu yn gwybod am faciwîs eraill yn ardal Pentir neu Rhiwlas. Edrychaf ymlaen am gyfraniadau!

Cynrig Hughes

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Hydref

1af Rhif 2
Kim Roberts, Rhiwlas
2ail Rhif 24
Nia Roberts, Rhiwlas
3ydd Rhif 53
Pamela Jones, Llanddeiniolen

Ffair Nadolig

Bydd ein Ffair Nadolig eleni yn cael ei chynnal yn y Ganolfan, Glasinfryn, prynhawn Sadwrn, 30 Tachwedd am 2.00 y.h. Bydd amrywiol stondinau a Raffl. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaethau’r Sul

Tachwedd
17 Cymun Bendigaid 9.45 y.b
24 Boreol Weddi 9.45 y.b

Rhagfyr
01 Cymun Pawb 9.45 y.b
08 Boreol Weddi 9.45 y.b
22 Cymun Bendigaid 9.45 y.b

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎**352835**

Dymuno gwellhad

Cafodd Karen Lorraine Jones, 9, Hafod Lon, anaf i’w chlun pan syrthiodd yn ei chartref. Yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd mae hi gartref erbyn hyn ac yn siwr o fod yn cael pob gofal gan Ken ei gŵr. Dymunwn wellhad buan iddi.

Cynorthwyo dosbarthwyr

Mae llawer o’r rhai sy’n derbyn Llais Ogwan yn y pentref yn talu amdano mewn un swm ar ddechrau’r flwyddyn. Mae hyn yn hwyluso gwaith y dosbarthwyr yn fawr gan nad oes ond eisiau ei roi drwy’r twll llythyrâu, er bod hynny’n golygu colli ambell i sgwrs ddifyr. Byddai’n ddymunol ychwanegu at eu nifer os yw hynny’n bosibl.

Taith Moelyci

Mae’r map o’r daith ddiddorol o gwmpas Moelyci gan Arwyn Oliver yn rhifyn Hydref o’r Llais yn nodi bod gallt weddol serth ar ôl mynd heibio i Tŷ’n Llidiart. Dilyna’r rhan ym o’r daith y llwybr y byddai dynion Rhiwlas yn ei throedio ar eu ffordd i’r chwarel yn y bore ac eto ar eu ffordd adref wedi’r caniad.

Hwyrach y bydd o ddiddordeb i gerddwyr – a hefyd i rod-di ar gof a chadw – wybod mai’r enw lleol ar y rhan mwyaf serth o’r llwybr yw ‘Clip Mawr’. Yn naturiol felly gelwir terfyn y rhan serth yn ‘Pen Clip’.

Profedigaeth

Yn ei gartref *Fish Inn*, Betws y Coed, ar 29 Hydref bu farw Islwyn Griffith, gynt o Rhiwlas. Roedd Islwyn yn fab i Mr a Mrs John Owen Griffith, 6 Stryd Uchaf, Rhiwlas ac yn frawd i Nancy a’r diweddar Joan a Meurig. Treuliodd ei blentyndod a’i lencyndod yn y pentref, gan fynychu Ysgol Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd hefyd yn ffyddlon yn yr oedfaon a’r Ysgol Sul yng Nghapel Pisgah, lle roedd ei dad yn flaenor.

Gan ei fod wrth ei fodd yn gweithio ar ffermydd lleol yn ystod gwyliau’r ysgol, roedd yn naturiol iddo astudio amaethyddiaeth yn y

coleg. Hyn ar ôl iddo gwblhau dwy flynedd yn y Llynges.

Bu’n gweithio fel ymgynghorydd i gwmni Cadbury ac yn ddiweddarach i’r Weinyddiaeth Amaeth, gan ddiweddu ei yrfa yng Nghaernarfon.

Anfonwn ein cofion a’n cydymdeimlad at Peggy ei briod a’r meibion Iwan a Dewi. Hefyd at Nancy ei chwaer ym Methel, a’r cysylltiadau teuluol yn y pentref a’r ardal.

Gair o ddiolch

Ar ôl treulio chwe wythnos yn Ysbyty Eryri mae Heulwen Evans, 30 Bro Rhiwen, gartref erbyn hyn ac yn gwella. Dymuna Heulwen ddiolch o galon i bawb a fu’n ymweld â hi yn yr ysbyty ac am y cardiau a’r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Eryri ar ar ôl dod adref.

Diolch

Dymuna Tony Jones, 9 Bron y Waun, gyfleu ei ddiolch cywir am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl dychwelyd adref o’r ysbyty.

Clwb Rhiwen

Ar 16 Hydref aeth nifer ohonom i gael cinio i fferm Tŷ Mawr, ac roedd cryn edrych ymlaen gan inni gael sawl pryd blasus yno o’r blaen. Ni chawsom ein siomi, cawsom ginio gwerth chweil y tro yma eto. Braf oedd croesawu Gwenno a Jean atom. Diolchwyd i Jane am y croeso arferol ac i Ann am wneud y trefniadau.

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Hydref

Croesawyd ni i’r cyfarfod gan Einir, Llywydd y mis, a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ann, Linda a Helen. Roeddem am longyfarch Linda ar fod yn aelod o’r tîm Celf a Chrefft a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth Llanelwedd. Cawsom wybodaeth am y cwis blynyddol, testunau’r Ffair Aeaf, ac am y bagiau y gellir rhoi cynnig amdanynt hyd at 1 Mawrth. Hefyd mae’r cinio Nadolig wedi ei drefnu – byddwn yn mynd i’r Black Boy yng Nghaernarfon.

Ein gŵr gwadd oedd Gethin Davies sy’n gweithio i Barc Cenedlaethol Eryri, y mwyaf yng Nghymru. Fe’i sefydlwyd yn 1951 a chawsom weld rhaglen ddiddorol a ddangosai amrywiaeth a chyfoeth y Parc. Swyddogaeth y Parc yw meithrin lles economaidd a chymdeithasol yr ardal. Wrth gwrs mae amddiffyn cyfoeth bioamrywiaeth y Parc yn bwysig iawn hefyd. Roedd cyflwyniad Gethin yn hwyllog ac yn addysgiadol ac yn sicr roedd gennym well dealltwriaeth o’r amrywiol waith a wneir gan y Parc. Diweddodd gyda dyfyniad addas gan T.H.Parry Williams:

*Ond gwn pwy ydywyf, os caf innau fryn
A mawndir a phabwyr a chraig a llyn.*

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

Dathlu pen-blwydd arbennig. Ar 26 Tachwedd bydd William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion, yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed. Derbyniwch ein cyfarchion gorau Bill, gan y teulu, cymdogion a ffrindiau yn Nhregarth a’r cyffiniau.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Liza ac Adam, Maes Ogwen ar enedigaeth merch fach, Leila Imogen. Dyma wyres fach gyntaf i Helen a Huw, Erw Faen a nith fach i David Huw a Ben. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

Dathlu Priodas Aur

Roedd Dydd Sadwrn, 26 Hydref yn ddiwrnod o ddathlu yn Yr Encil, 20 Tal y Cae, Tregarth. Dyma’r diwrnod yr oedd Wil a Dilys Parry Williams yn dathlu eu Priodas Aur. Gobeithio i chi gael diwrnod wrth eich bodd Wil a Dil, ac fe hoffai eich holl ffrindiau yn Nyffryn Ogwen anfon dymuniadau gorau i’r ddau ohonoch a phob iechyd a bendith i’r dyfodol.

Cogydd o fri

Llongyfarchiadau gwresog i Hefin Roberts, mab Glenys a Derek Roberts, Pen y Braich, Braich Talog, Tregarth, ar ennill tair gwobr arbennig iawn fel cogydd. Hefin yw’r Prif Gogydd yng Ngwesty’r ‘Old Bull’ ym Miwmares, Ynys Môn. Yn ddiweddar, enillodd y gwesty wobr am y lletygarwch a’r bwyd sy’n cael ei weini yno. Ardderchog - a phob llwyddiant i Hefin yn y dyfodol.

Capel Shiloh

Ysgol Sul 10.30
Oedfa’r hwyr 5.00

Dyma’r gwasanaethau am yr wythnosau nesaf:

Tachwedd
10 Parch Dafydd Coetmor Williams
17 Y Parchedig Olaf Davies, Llandegfan
24 Trefniant Lleol

Rhagfyr
01 Y Parchedig Gwynfor Williams
08 Trefniant Lleol
15 Y Parchedig W.R. Williams, Y Felinheli
22 (am 4 o’r gloch) Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul
29 Trefniant Lleol

Gwasanaethau y Diolchgarwch yn Shiloh

Bore Sul, 13 Hydref cafwyd Oedfa’r Diolchgarwch gan blant a phobl ifancYsgol Sul yn Shiloh. Thema’r gwasanaeth eleni oedd y Tymhorau, a thrwy gyfrwng darlleniadau, emynau, unawdau, gweddïau a chaneuon ar y testun cafwyd gwledd yn wir i bawb o’r gynulleidfa oedd yn bresennol. Roedd yn braf cael croesawu’r gwyddonydd Dr Deri Tomos, Llanllechid i roi sgwrs ar y newid sy’n digwydd yn y Tymhorau a’r hinsawdd a mor ofalus y dylem i gyd fod yn ein hagwedd tuag at yr amgylchfyd a sut i’w warchod i’r dyfodol. Diolchwyd i’r siaradwr gwâdd am roi i ni olwg newydd ar y pwnc ac am ei ddull cartrefol braf o gyfleu ei neges yn ddiddorol a naturiol.

Dathlwyd Nos Lun y Diolchgarwch ar 21 Hydref gydag oedfa yng nghwmni y Parchedig Philip Barnett, Deganwy. Roedd yn braf iawn cael croesawu ein cyn-weinidog yn ôl i bulpud Shiloh. Bore Sul, 10 Tachwedd, bydd yr Ysgol Sul yn croesawu Buddug Jones, Caernarfon, a’i chi tywys. Dyma’r eildro i Buddug ddod yma atom, ac mae croeso mawr i unrhyw un a hoffai fod yn bresennol yng nghwmni’r aelodau, a hynny am 10.30.

Bydd aelodau’r Ysgol Sul yn brysur yn yr wythnosau nesaf yn paratoi ar gyfer Gwasanaeth y Nadolig , fydd yn cael ei gynnal ar 22 Rhagfyr am 4.00 o’r gloch.

Eglwys y Santes Fair Tregarth

Te Bach
Cynhaliwyd Te Bach llwyddiannus ddydd Mawrth, 22 Hydref. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd. Cynhelir Te Nadolig ddydd Mawrth, 3 Rhagfyr, am 2.00pm yn yr eglwys.

Profedigaeth
Cydymdeimlwn â David, Nikola ac Izac Gale. Bu farw tad Nikola yn ddiweddar.

Bedydd
Ar 13 Hydref bedyddiwyd Alaw Mai, merch fach Manon Roberts, 12, Bro Syr Ifor, ac wyres i Goronwy a Sulwen Roberts.

Diolchgarwch
Dydd Iau, 24 Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol, a braf iawn oedd gweld y plant yn mwynhau, a’r eglwys yn llawn.

Gwellhad
Dymunwn wellhad buan i Val Hayward a Sue Matthews, y ddwy wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar

Gwasanaethau

Tachwedd
24 9.45 Cymun Bendigaïd

Rhagfyr
01 5.00pm Gwasanaeth Adfent
08 9.45am Cymun Bendigaïd
15 4.00pm Gwasanaeth Carolau
22 9.45am Cymun Bendigaïd
25 9.30am Cymun Bendigaïd

Clwb Cant Medi
£15 117 – Ann Jones
£10 44 – Babs Roberts
£ 5 98 – Muriel Williams

Clwb Cant Hydref
£15 156 – Tim Jones-Griffith
£10 106 – Goronwy Roberts
£ 5 75 – A.M.Pritchard

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Braf iawn oedd cael croesawu Cadi Iolen o Riwlas atom i Gangen Tregarth o Ferched y Wawr, Nos Lun 7 Hydref . Ei thestun oedd ‘Fy ngwaith yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis’.

Un o ferched Dyffryn Ogwen ydi Cadi, wedi’i haddysgu yn Ysgol Gynradd Rhiwlas, lle bu ei thaid yn brifathro, ac yna yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Aeth ymlaen wedyn i astudio Hanes yng Ngholeg Prifysgol Bangor, lle y graddiodd naw mlynedd yn ôl, ac ers ei chyfnod yn y Brifysgol mae Cadi wedi bod yn Guradur yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis.

Cychwynnodd ei sgwrs drwy ddweud beth yn union yw gwaith Curadur, sef un sy’n edrych ar ôl y gwrthrychau amrywiol sy’n rhan o gasgliad yr Amgueddfa. Mae’r rheini’n cwmpasu offer chwarelyddol o bob math, yr offer diwydiannol sy’n rhan o’r Amgueddfa ac wrth gwrs y dogfennau, llyfrau, lluniau ynghyd â’r adeiladau sy’n gysylltiedig â’r campws. Drwy gyfrwng lluniau amrywiol cafodd gyfle i ddangos rhai o drysorau’r Amgueddfa, yn ychwanegol at gyflwyno hanes cychwyn y diwydiant chwarelyddol yng Ngogledd Cymru ac yn arbennig yn ardal Llanberis.

Roedd ei chyflwyniad o’r testun yn cael ei gyflwyno’n ddiddorol a hyderus ac yn amlwg roedd ei brwdfrydedd tuag at y swydd mae’n ei wneud yn fyrlymus a chyffrous. Mae’n amlwg fod Cadi’n mwynhau’r gwaith y mae’n ei wneud yn ddyddiol ac roedd yn fraith bod yn rhan o’r gynulleidfa a fu’n gwrando arni yn Festri Capel Shiloh, Tregarth. Diolchwyd i Cadi gan Gwenda Davies a Nesta Williams, a dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd fel Curadur i’r dyfodol. Mae’n amlwg y bydd llawer o’r aelodau yn troi i mewn unwaith eto i Amgueddfa Lechi Llanberis yn dilyn y sgwrs hynod o ddifyr gan Cadi.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Edward Oliver
Mynnaf nad llwch mohono; mae ei wên yn y mynydd eto;
Araf erioed i'w wyro
A'i roddi i lawr oedd ei haul o.

Gwynfor ab Ifor

Diolch
Hoffwn ddiolch i Eimir Frodsham am ei gwasanaeth fel dosbarthwraig a gwerthwraig Llais Ogwan yn Mynydd Llandygai. Mae'n dda gennym glywed ei bod am ddal i werthu ein calendrau. Croesawn Helen Berry, Bryn Hyfryd, St Ann's (600583) yn ei lle, gyda chymorth Colin Jones. Hefyd, oherwydd cynnydd yn nifer y prynwyr, croesawn bedwar o werthwyr newydd, sef Lynn Ashton, John Jones, Sioned Ryder ac Elin Sanderson. Diolchwn hefyd i'r gwerthwragedd sy'n dal i weithredu, sef Rhian(wen) Roberts ac Edith Jones.

Profedigaeth
Cydyndeimlwn â Mrs Mair Williams, Arafon, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd Mr Dei Parry. Ymddiheurwn am fod yn hwyr. Rydym yn meddwl amdanoch.

Clwb Mynydd
Cafwyd prynhawn hyfryd yn y Clwb yn ddiweddar. Ein gŵr gwâdd oedd y Canon Idris Thomas, gyda'i ddarlith am Ysbyty Chwarel Dinorwig a'r ardal. Pawb wedi eu plesio. Cafwyd paned, ac enillydd y raffl oedd Mrs Paula Jones. Bydd y trip ar 20 Tachwedd i Gaer, gyda'r bws yn gadael o'r pentref am 9 o'r gloch

Clwb Ieuencid
Bydd y Clwb yn cynnal Bingo Nadolig yn y Neuadd Goffa am 7.00 o'r gloch ar 3 Rhagfyr. Buasent yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniad at yr achos. Aiff yr elw at barti Nadolig aelodau'r Clwb. Diolch yn fawr.

Gwaeledd
Nid yw Mr Elwyn Davies yn rhy dda yn Ysbyty Gwynedd. Mawr obeithiwn eich bod yn teimlo'n well, ac anfonwn ein cofion atoch. Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl yn y pentref a dymunwn adferiad buan i chwi i gyd.

HENO & PRYNHAWN DA:
Wrth galon eich cymunedau
Mae rhaglenni cylchgrawn poblogaidd S4C, Prynhawn Da a Heno yn crwydro Cymru yn ddyddiol yn chwilio am eich straeon chi. Rhannwch eich straeon â ni, neu beth am ein gwahodd i'ch cymunedau? Boed eich stori'n fawr neu'n fach, mae lle iddynt ar Prynhawn Da a Heno.
Codwch y ffôn 01554 880 880, ebostiwrch heno@tinopolis.com
prynhawnda@tinopolis.com, neu dilynwrch ni ar Trydar a Facebook.

Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar 29 Hydref yng Nghanolfan y Cefnfaes.
Cafwyd adroddiadau gan y rhai a fu yn y Gynhadledd Flynyddol ac roedd pawb wedi eu plesio yn arw gyda'r drefniadaeth a'r siaradwyr ynghyd â'r sylw a ddenwyd gan y wasg. Y farn oedd iddi fod yn Gynhadledd effeithiol ac adeiladol.
Mae Paul Rowlinson a Rheinallt Puw wedi eu hethol ar Y Cyngor Cenedlaethol a fydd yn cyfarfod i gydfynd â'r Ysgol Aeaf yng Ngwersyll Glan Llyn, Tachwedd 22ain – 24ain.

Eisoes mae ymgyrch Hywel Williams ar gyfer yr Etholiad Gyffredinol wedi dechrau ac mae nifer wedi bod o amgylch gwahanol ardaloedd yn gofyn barn y boblogaeth ynglŷn â nifer o bethau sy'n ymwneud â'u bywyd bob dydd.

CHWILAIR MIS TACHWEDD 2013
Emynau Caneuon Ffydd

I	W	M	O	L	W	C	H	A	R	Y	R	U	T	G	O	R	N	F	H
G	R	H	T	O	B	A	S	E	R	O	F	O	T	E	H	T	E	A	D
L	R	A	I	C	A	N	A	F	Y	N	Y	B	O	R	E	E	J	L	C
Y	F	N	D	M	N	W	L	O	D	D	A	H	T	E	F	A	B	B	A
W	B	E	A	A	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G
A	V	H	R	F	R	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A
F	P	A	U	D	D	O	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	H
D	C	U	M	W	M	Y	R	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D
Y	X	U	P	W	R	E	R	F	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E
N	G	E	O	M	H	E	L	F	F	P	T	T	C	B	B	C	U	U	J
E	P	L	T	M	I	V	V	H	Y	E	D	C	B	B	F	R	F	O	G
R	J	V	I	I	R	R	X	I	T	H	D	M	H	T	T	O	S	K	O
L	P	W	R	C	M	K	C	B	O	E	A	N	R	C	X	V	R	Y	H
A	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	B	M	Y	H	B	C	W	O	S
I	C	R	A	I	X	N	I	L	X	J	J	A	Y	S	M	B	W	T	E
S	D	Y	B	Y	H	T	E	A	N	W	A	W	U	D	I	X	M	D	X
K	F	U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	T	L	D	Q	R	O
U	N	F	E	N	D	I	T	H	D	Y	R	O	I	M	C	E	Y	T	D
G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	W	T	V

Y mis yma mae LLINELL GYNTAF RHAI O EMYNAU CANEUON FFYDD i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH), ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn 4 RHAGFYR. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Nifer fawr iawn ohonoch wedi darganfod LUC yn y chwila'r mis diwethaf. Ond fel roedd llygaid craff Mr Elfed Bullock wedi sylwi, roedd yr atebion cywir i gyd yn dod o'r HEN Destament. Hap a damwain oedd i LUC ymddangos. Diolch i Donna Coleby am roi cynnig unwaith eto ar y Chwila'r, mae wedi bod sawl mis ers i mi dderbyn ateb ganddi. Pob lwc gyda'r testun y mis yma. Dyma atebion Hydref. Brenhinoedd, Daniel, Eseia, Exodus, Genesis, Habacuc, Josua, Lefiticus, Numeri, Obedeia, Samuel a Seffaneaia.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-
Rhiannon Efans, Glanaber, Pant; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Eira Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli; Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth.

Enillydd Medi oedd:- Marilyn Jones, l Glanffrydlas, Bethesda.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1855-1860

1855

Dechrau saethu bob awr yn Chwarel y Penrhyn.

11/12/1855: Geni David Thomas Ffrangcon Davies, yn fab i Dafydd a Gwen Davies, Mount Pleasant (y tŷ, a pedd yn un o ddau, a oedd agosaf at y chwarel ar lôn Bryn-llwyd. Tynnwyd y ddau dŷ i lawr tua chanol y 1960au. Addysgwyd ef yn Ysgol Pont-Tŵr, Ysgol y Friars a Choleg yr Iesu, Rhydychen. Gyrfa yn yr Eglwys i ddechrau, yna troi'n gerddor proffesiynol a datblygu i fod yn gerddor byd-enwog. Ymwelai ag America a'r Almaen i ganu a darlithio ar gerddoriaeth. Yn 1904, cafodd ei benodi'n

athro yn y Royal Academy of Music. Yn 1905, cyhoeddodd *The Singing of the Future*. Bu farw 13/04/1918. Ysgrifennodd ei ferch, Marjorie, *David Ffrangcon-Davies – His Life and Book* yn 1938. Roedd ei ddwy ferch (Gwen oedd y llall) yn actoresau pur adnabyddus. 14/07/1855: Geni'r cerddor R[ichard] S[amuel] Hughes yn Aberystwyth.

1856

09/10/1856 (dydd Iau): Cysegru Eglwys Glanogwen gan yr Esgob Bethel. Costiodd tua £6000. 01/1856: Goleuni nwy am y tro cyntaf yn rhai o siopau a thai'r ardal. Y Bedyddwyr yn symud o Gapel Caersalem i'r Stryd Fawr – i'r adeilad a drowyd yn Siop Tŷ Mawr wedi hynny (bellach wedi'i dymchwel). Symudwyd wedyn i Gapel y Tabernacl ar Allt Pen-y-bryn. Edward Stephen (*Tanymarian*) yn dod yn Weinidog ar Gapel Bethlehem (Tal-y-bont) a Charmel (Rachub). Bu yno tan ei farw yn 1885. Claddwyd ef ym Mynwent Capel Bethlehem. Cau Chwarel y Coed (Llety'r Adar). 05-06/11/1856: Ailagor Capel Hermon (MC), Mynydd Llandegai, ar ôl ei ailadeiladu. Eisteddfod Bethesda.

Tua 1857

Adeiladu Pant Teg, Tŷ Gweinidog Capel Shiloh, Tregarth. [LLO 06/89]

1858

03/02/1858: Ffurio Plwyf Glanogwen Ailadeiladu Capel Shiloh, Tregarth.

29/08/1858: Lladdwyd y cerddor Robert Davies (*Asaph Llechid*), 24 oed, yn Chwarel y Penrhyn. Claddwyd ef ym Mynwent Glanogwen.

1859

16/10/1859: Y Frenhines Victoria a'i gŵr yn ymweld â Chastell y Penrhyn. Rhoes y Frenhines gwpan arian a thros £150 o bunnau i aelodau côr Llanllechid a'u harweinydd, Eos Llechid. Y Parchedig David W. Thomas yn dod yn Ficer St Ann. Bu yno tan 1894. Bu farw Rhagfyr 29, 1906. 09/10/1859: Y Diwygiad yn gafael yng Nghapel Carneddi. 15/10/1859: Yr Arglwydd Penrhyn yn cyflwyno harmoniwm 'to the choirs of the different denominations of Dissenters near the Penrhyn Quarry'.

Tua 1860

Capten Twigge yn agor Chwarel Moel Faban.

1860

Codi Capel Saron, Ty'n-y-Maes. Caewyd nos Lun, Mai 11, 1970. Ailadeiladu Capel Bethlehem, Tal-y-bont. Ailadeiladu Capel Carmel, Rachub. Hydref: 'Derbyn cyflawnder o ddwfr spring rhagorol trwy bibell haearn o fryn Carneddi i lawr i'r lle mwyaf cyfleus ym Methesda i bawb i'w gael yn rhad ac am ddim. Llenwir dyfrlestri yn ddiymaros gan ddwfriedyn ardderchog. Rhodd yr Hen Lord'. Sefydlu Cymdeithas Lenyddol Capel Bethesda.

I'w barhau

O'r Llyfrgell



Llongyfarchiadau mawr i Wil Davies 6 oed, o Ffordd Bangor, ac aelod o Lyfrgell Bethesda, ar ennill un o dair gwobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Haf Llyfrgelloedd Gwynedd. Derbyniodd becyn o nwyddau crefft - da iawn ti, Wil.

LLYFR O DDDIDDORDEB ARBENNIG I LENGARWYR DYFFRYN OGWEN

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y gyfrol Bob: Cofiant R. Williams Parry 1884 – 1956 gan y bardd a'r ysgolhaig, yr Athro Alan Llwyd. Gan fod R. Williams Parry wedi treulio 34 o flynyddoedd yn Nyffryn Ogwen bydd y gyfrol o ddiddordeb arbennig i drigolion yr ardal. I unrhyw un sydd ag unrhyw fath o ddiddordeb mewn llenyddiaeth yng Nghymru bydd teitlau fel 'Eifionydd', 'Y Llwynog' ac 'Englynion Coffa Hedd Wyn' yn sicr yn canu cloch. Dyma rai o gerddi y bardd anfarwol R. Williams Parry, wrth gwrs, ac er bod sawl degawd ers eu cyfansoddi, mae rhai o'i gerddi yn dal i fod ar faes llafur cyrsiau Cymraeg mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion hyd heddiw. Meddai Alan Llwyd, "Wrth farddoni, roedd R. Williams Parry yn un o'r ychydig feirdd oedd wastad yn cadw safon uchel ac yn rhoi sylw manwl i gywirdeb ei grefft, ac o ganlyniad mae bron bob cerdd ganddo yn gampwaith. "Dwi'n credu mai ei gamp fwyaf oll yw'r corff anhygoel o farddoniaeth mae o wedi ei adael ar ôl i ni, ac mae'r ffaith bod y cerddi hynny yn dal i fod yr un mor boblogaidd heddiw ag yr oedden nhw pan gawson nhw eu 'sgwennu'r tro cyntaf yn dyst o'i ddawn aruthrol."

Yn ogystal â thrafod barddoniaeth R. Williams Parry mae'r gyfrol yn trafod ei fywyd, ei gynefin, ei deulu, ei addysg a'r holl ddylanwadau arno. Mae llawer o gerddi'r bardd mewn ymateb i ddigwyddiadau a oedd yn effeithio ar y gymdeithas ac ar Gymru fel cenedl. Un o'r digwyddiadau a fu'n fawr ei ddylanwad ar y bardd oedd y weithred o losgi'r Ysgol Fomio yn Llŷn gan Saunders Lewis, D.J. Williams a'r Parch Lewis Valentine yn 1936, a'r ddau achos llys a'r carchariad a'i dilynodd, ac yn arbennig felly, ddiswyddiad Saunders Lewis gan Goleg Prifysgol Cymru, Abertawe. Digwyddiad arall fydd o ddiddordeb arbennig i ddarlennwyr yn Nyffryn Ogwen yw dyfodiad yr ifaciwis i'r ardal yn 1939 o ganlyniad i gyhoeddi dechrau'r Ail Ryfel Byd, digwyddiad a fu'n achos anghydfod a arweiniodd at ymadawiad y Parch. Thomas Arthur Jones, Gweinidog Jerwsalem. Un o'r penodau mwyaf cyffrous yn y llyfr yw'r bennod 'Helynt y Brifysgol', sy'n trafod y frwydr hir a chwerw rhwng y bardd a'i benaethiaid yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Mae'r hanes hwn hefyd o ddiddordeb lleol oherwydd bod y gwrthdaro rhwng y bardd a'r Athro Ifor Williams, yr ysgolhaig o Dinas, Tregarth. Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg Gomer ac mae copïau ar werth yn y siopau llyfrau Cymraeg. Pris: £25.00.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Hydref, aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod yn y Rhyl i drafod dogfennau polisi'r Blaid Lafur – e.e. y ddogfen ar y berthynas rhwng yr undebau a'r Blaid Lafur – gyda Lesley Griffith, y gweinidog dros lywodraeth leol, a Martin Eaglestone, swyddog polisi Plaid Lafur Cymru.

Hefyd, aeth cynrychiolwyr y gangen i Fethel i drafod tair dogfen bolisi (am Addysg, Tai a Chyfansoddiad Cymru) ar gyfer fforwm polisi i Gymru.

Yng nghanol y mis, aeth nifer o aelodau i noson o hwyl yng Nghyffordd Llandudno, yn dwyn yr enw 'Stand Up for Labour' (tri digrifwr gwleidyddol).

Tua diwedd y mis, aeth y selogion i drafodaeth wleidyddol ym Mangor, gydag Alun Pugh (ymgeisydd seneddol Llafur), Hywel Williams (aelod seneddol) a Mark Jones (newyddiadurwr o Wrecsam) - y tri gyda safbwyntiau tebyg wrth gollfarnu'r llywodraeth bresennol yn San Steffan.

Yn ogystal â hyn, mae tîm o Ddyffryn Ogwen wedi bod yn canfasio ar y ffôn yn wythnosol, a chynhaliwyd y cyfarfod misol arferol ym Methesda, pryd y cafwyd adroddiad am Gyngor Gwynedd (e.e. 24% yn ysmegu, ond bod targed o 20% erbyn 2016), adroddiadau am y cynghorau cymunedol, â materion mewnol.

Treth ar Ystafelloedd Gwely Gwag:

Yn ystod ei hymweliad diweddar â Dyffryn Ogwen, datganodd Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau'r Wrthblaid yn San Steffan, Rachel Reeves, AS, ei hymroddiad llwyr i gael gwared â'r dreth annheg uchod. Ymunodd Ms Reeves ag Alun Pugh ar ei daith o amgylch busnesau lleol, ac ar ymweliad â chartrefi yn Nhregarth.



Dywedodd Mr Pugh: “Llwyddais i gyfleu i Ms Reeves yr effaith andwyol y mae'r dreth yma'n ei chael yn yr ardal hon. Mae rhai pobl yn gorfod codi benthyciadau diwrnod tâl, ac yn ddibynnol ar fanciau bwyd. Mae mwy fyth yn cael eu gwasgu gan gostau ynni, sydd yn codi ar raddfa deirgwaith yn uwch na graddfa chwyddiant. Mae cynlluniau Llafur i rewi prisiau nwy a thrydan hyd 2017, ac i ddiwygio'r farchnad ynni, wedi ennyn llawer o gefnogaeth. Nid yw'n ormodiaith dweud bod argyfwng costau byw yng Ngwynedd, gyda miloedd o bobl wedi'u caethiwo rhwng cyflogau sydd wedi'u rhewi a phrisiau cynyddol”.

Gweithgareddau i ddod:

Cynhelir noson agored Plaid Lafur Arfon (Ysbryd 45) yn Galeri ar 29 Tachwedd, a Ffair Nadolig y gangen ar 7 Rhagfyr yng Nghaffi Coed y Brenin.

Llythyr

Ers ychydig fisoedd bellach, yr wyf wedi bod yn gweithio ar gynllun newydd sef olrhain hanes a cherddoriaeth sioeau cerdd Cymraeg, gyda'r bwriad o greu archif o'r hyn yr wyf yn ei gasglu. Euros Rhys Evans sy'n cydlynnu'r cynllun, ac 'rydym yn gweithio'n galed i gynnwys cynifer â phosibo sioeau a chaneuon yn yr archif.

Mae'n rhyfedd sut y mae gennym ryw draddodiad yma yng Nghymru o ysgrifennu sioeau ar gyfer achlysur, ac yna peidio ei pherfformio byth eto! Buaswn wrth fy modd cael atgyfodi rhai o'r sioeau yma a rhoi cyfle i ieuencid y wlad i'w perfformio. Bydd yr archif hefyd o fudd i ddisgyblion llais a drama gan y bydd cronfa newydd o ganeuon yna ar eu cyfer.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan y Coleg Cenedlaethol, ac mae'r archif yn cael ei redeg o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yr hyn a obeithiaf yw y gall eich papur fod yn help mawr i mi ddod o hyd i ychydig mwy o gerddoriaeth a sioeau!

Apêl yw hwn felly am wybodaeth neu memorabilia neu unrhyw beth yn ymwneud â sioe a gafodd ei sgwennu/perfformio yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf – nid oes ots pa mor fyr neu hir yw'r sioe!

Os hoffech fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Richard Vaughan
Swyddog Archif Sioeau Cerdd Cymraeg
attic_studios@hotmail.com
07713158451

COFIO SIONYN

Y diweddar Michael Jones (Meic, Felinhen) oedd yn byw mewn tŷ pâr y drws nesaf i mi ym Mraichtalog, Tregarth, erstalwm. Roedd ef ychydig bach yn hŷn na mi a bu ei lystad farw ar ddiwrnod Nadolig yn y 1950au cynnar. Wedi'r digwyddiad trist hwnnw fe symudodd Michael i Rhiwlas i fyw gyda'i fam wen a daeth teulu arall i fyw y drws nesaf i mi wedyn.

" Greigfa Farm " oedd enw cartref Michael ym Mraichtalog ond tyddyn ydoedd y ' fferm ' honno mewn gwirionedd ac 'roedd ei ychydig dir yn amgylchynu fy hen gartref. Enw hwnnw oedd " Greigfa Cottage ". Gyrrwr bws Crosville a nabodid gan bawb fel 'Sionyn' a'i wraig, a hannah o rywle ym mherfeddion Môn, ynghyd â'u dau blentyn ac un fonesig ifanc arall oedd tenantiaid newydd " Greigfa Farm ".

Yn ogystal â bod yn yrrwr bws 'roedd Sionyn yn amaethwr medrus, a hoffwn ei wyllo'n trin a diwyllio tir ei fferm cyn amled ag y medrwn.

Un dydd, wedi i Sionyn godi aradr olwyn o'i orweddle ar fuarth ei fferm, fe'i gwelais ef yn bachu clust yr offeryn hwnnw wrth harnais gwedd ddwbl o geffylau gwaith ac wedyn fe'i dilynais i gae bychan, lle gwelais ef o un o'r talarau'n aredig gwndwn tewgroen nad oedd ei wyneb wedi cael ei godi ers hydoed cyn hynny. Roedd y mymryn lleiaf o oriwaered ar y cae ond gan nad oedd digon o lethr ynddo, ei aredig ar draws y llechwedd yn hytrach nag i fyny ac i lawr yn ôl arfer gwlad y cyfnod wnaeth Sionyn.

Châi Sionyn mo'i boeni gan fân gnwciau a phantiau yn y tir tra byddai'r wedd yn symud ac, o'i gychwynfan i'w gyrchnod, ni fyddai neb yn ardal Tregarth a dynnai unionach cwys nag ef. Ni fyddai penelinoedd na balciau yn ei gwysi a byddai'n cwysu'n gyson heb godi pridd newynllyd i'r wyneb wrth hwylio'i aradr. Byddai'n dyner gyda'i feirch ac oherwydd hynny byddent hwythau'n cyd-gamu'n ufudd fel milwyr yn y wedd o dalar i dalar heb wegian yr un iot.

Tra byddai Sionyn yn edmygu ceinder ei waith o ben bob cwys, edrychwn innau ymlaen at gael clywed sŵn y cwlwtwr yn rhwygo'r tir unwaith yn rhagor a chael gweld y ceffylau yn y wedd yn pwyso ar eu coleri wrth wneud eu gwaith. Mae gennyf gof byw o hyd o su'r cwysi'n cael eu troi gan asgell bridd yr aradr fel y symudai Sionyn y wedd yn ei blaen wedi bob hoe fach, a sawr y pridd a ddeuai i'r wyneb yn llenwi fy ffroenau.

Ymhen amser priodol wedi'r cwysu gwelais Sionyn yn llyfnu'i â'r gydag og bigau. Gyda honno roedd yn cau ceg y cwysi a malu'r clapiau pridd oedd ynddynt gan wneud yr âr yn wely addas ar gyfer derbyn hadau. Cael ei thynnu ar hyd y cwysi yn hytrach nag ar eu traws gâi'r og ganddo.


Gyda'i ddwy law y byddai Sionyn yn hau a hynny o gynfas o'i flaen a fyddai ynghrog wrth ei wegil ar ffurf gwarrog. Roedd yn heuwr dan gamp. Byddai'n hau ei hadau'n wastad a heb fynd dros yr un lle ddwywaith na gadael rhimynnau o'r cae heb had. Wedi hynny byddai'n defnyddio rowler ysgafn a lusgid gan un o'i geffylau i wasgu'r had yn dyner i bridd yr âr.

Gyda phladur y byddai Sionyn yn lladd ei weirgloddiau. Ymhen rhyw dridiau wedyn fe ddeuai pawb oedd yn byw ym Mraichtalog at ei gilydd i droi'r gwaneifiau iddo fel y câi'r haul a'r gwynt sychu'r gwair ynddynt yn llwyr cyn iddynt gael eu cywain gyda throl a cheffyl i ddiddosrwydd sgubor ar gwr ei fferm ar ddiwrnod cario gwair. Caem ni blant hwyl fawr yn chwarae yn y gwair adeg y cynaeafau gwair hyn ym Mraichtalog.

Ysywaeth, y mae Sionyn - coffa da amdano! - bellach yn ei fedd ac mae holl amgylchiadau bywyd gwledig gynt o'r math a ddisgrifiais uchod wedi newid yn llwyr, ac yn fy marn i mae rhai agweddau ar y newidiadau hynny'n gollod mawr i unrhyw gymdeithas wâr.

DAFYDD LLEWELYN – gynt o Dregarth.

Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver



Taith 6: Y Lôn Las i gyfeiriad Tregarth ac yn ôl

Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf ym Methesda a cherdded heibio rhes tai Lôn Sarnau sydd ar y chwith. Ewch ymlaen heibio ffatri G L Jones ar lwybr Pont Sarnau sy'n mynd gydag ymyl Afon Ogwen. Peidio croesi'r bont ond yn hytrach, dilyn y Lôn Las newydd (heb agor yn swyddogol eto) hyd lannau Afon Ogwen nes codi rhyw gymaint i ddilyn yr hen reilffordd i gyfeiriad Bryn Bela.

Parhau ar y Lôn Las, o dan ddwy bont nes
cyrraedd i olwg y twnnel. Cadw i'r chwith yn
fan hyn ar y tar mac a dilyn y lôn feics i'r lôn a
Phont Coetmor ar y chwith. Croesi'r bont a
dilyn y ffordd i fyny at groesffordd Hen
Dyrpeg. Croesi'r ffordd ac i fyny Lôn Hafoty,
heibio arwydd glas a heibio Cwt y Giard, sy'n
dal ar ei draed ers pan gaewyd lein y chwarel.

Daw Lôn Hafoty a chwi i gyffordd Lôn Braich Talog sy'n arwain o Benygroes, Tregarth i Fynydd Llandygai. Troi i'r chwith a cherdded i fyny'r ffordd heibio i dai Hafoty Uchaf a giât Glan Y Gors ar y dde. Ymhen rhyw ganllath, fe ddowch at dro i'r chwith ar y ffordd. Croeswch, ac ewch drwy'r giât fochyn ar y dde. Cerdded rhyw ddeg cam ac fe welwch giât fochyn arall aiff a chwi i'r dde eto i gyfeiriad Dob. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr hyd odre Parc Dob.

Daw'r llwybr a chwi maes o law at giât bren sy'n arwain at fferm Dob. Trowch i'r dde i lawr y llwybr gan gymryd gofal ar y grisiau concriid. Dilyn y llwybr heibio talcen tŷ ac yn syth ymlaen i lawr am bentref Tregarth. Cadw am i lawr a pheidio troi i'r chwith am Waun Pandy. Ymhen dim fe ddowch i waelod yr allt ac ymuno â ffordd Tregarth, rhyw ganllath islaw tafarn Pant yr Ardd.

Trowch i'r chwith a cherdded ychydig am Penrall. Croesi'r ffordd ac anelu am arwydd y Lôn Las sydd ar y dde ac sy'n eich cyfeirio heibio talcen hen Siop Penrall ac i lawr am y Ganolfan.

Aiff y llwybr a chwi heibio'r cae pêl droed a
dilyn llwybr yr hen lein eto. Ewch o dan y
bont lein chwarel a throi i'r chwith i fyny
grisiau'r llwybr am Lôn Cerrig Llwydion.
Trowch i'r dde ac i fyny'r allt heibio Pendinas
(cartref Syr Ifor Williams).

Wedi cyrraedd y brif lôn trwy Dregarth, cadw i'r chwith heibio stad Bro Derfel. Wedi pasio mynedfa'r stad, ewch i lawr y llwybr cyhoeddus (wedi arwyddo) heibio Pen Gamfa ac i lawr y grisiau. Croeswch Lôn Dinas ac ymuno a'r llwybr grisiau eto nes cyrraedd y lôn a Phont Coetmor. Croeswch y bont a throi i'r chwith i ymuno a'r Lôn Las unwaith eto. Dilynwch y Lôn Las yn ôl i'r man cychwyn.

Pellter: Tua 4 milltir

Amser: Rhyw 2 awr hamddenol

Math o daith: Cymedrol – dwy allt, Lôn Hafoty a Cherrig Llwydion

Offer: Esgidiau cerdded - y llwybr heibio Parc
Dob yn wlyb mewn manau

David Thomas Ffrangcon-Davies

DRWY ei holl fywyd yr oedd David T. Ffrangcon-Davies yn ŵr o argyhoeddiadau dwfn, mewn crefydd ac mewn cerddoriaeth. Fel bachgen ifanc yr oedd ef wedi cerdded y bryniau oddiamgylch ei gartref ac wedi gweld gweledigaethau a breuddwydio breuddwydion. Yno mewn dychymyg y cerddai ac y siaradai â'r proffwyd Elias a chanu. Oherwydd fel plentyn byddai'n canu bob amser – yng nghorau'r capel a'r eglwys yn gyffwylb. Ac yr oedd yn atgof parhau o'i hapusrwydd ifanc ger Bwlch Nant Ffranccon yr hyn y bu iddo ef ychwanegu yr enw Ffrangcon i'w enw bedydd pan adawodd Cymru i fynd i'r coleg.



Ganwyd David T. Ffrangcon-Davies ym Mount Pleasant, Bethesda, yn 1855. Darganfu ei rieni ei fedrusrwydd, a gwnaethont bob aberth i'w anfon o ysgol y pentref (Ysgol Genedlaethol Pontŵr) i Ysgol Ramadeg Friars, Bangor, ac yna i Goleg Iesu, Rhydychen (graddiodd yn B.A. ac yn M.A.). Er nad oeddynt hwy eu hunain yn grefyddol iawn penderfynont y byddai talentau Ffrangcon yn fwy buddiol i'r Eglwys, ac yn fuan ar ôl cymeryd ei radd cafodd ei ordeinio yn esgobaeth Bangor. Urddwyd ef yn ddiakon yn Eglwys Llantysilio, Porthaethwy, yn 1883, ac yn guraid yng Llanaelhaearn y flwyddyn ddilynol. Tra'n guraid yng Nghonwy (1885) bu'n astudio'r organ o dan organydd yr eglwys gadeiriol ym Mangor, a'r un pryd cyfarfu am y tro cyntaf â'i ddarpar wraig, Annie Francis Rayner, a briododd yn 1889.

Bu i siomedigaeth ynglŷn â dyrchafiad arwain i guradiaeth yn yr East End, Llundain, ac argyhoeddiad mwy fod ei wir fywyd mewn cerddoriaeth. Heb egeuluso ei ddyletswyddau plwyfol bu wrthi'n galed yn astudio canu yn Ysgol Gerdd y Guildhall, a chafodd gynnig lle gyda Cwmni Opera Carl Rosa. Ymddiswyddodd o'i guradaeth ac ymunodd â'r cwmni a bu galw mawr iawn arno am ei wasanaeth drwy'r wlad, lle bu i rym ei bersonoliaeth greu argraff ddofn, yn enwedig yn ei ddehongliad o'r proffwyd Elias. Ei ymddangosiad cyhoeddus cyntaf ar y llwyfan oedd yn Neuadd y Free Trade, Manceinion, yn Ionawr 1890. Aeth i'r America ar daith gerddorol yn 1896 ac 1898, ac yna i'r Almaen yn 1898, lle bu'n canu ac yn dysgu. Dychwelodd i'r wlad hon yn 1901 ac o'r flwyddyn honno daeth yn ffrind agos i Syr Edward Elgar, a gyfansoddodd 'Yr Apostolion' yn ddiweddarach gyda Ffrangcon-Davies mewn golwg i chwarae rhan Crist. Ym Manceinion hefyd y bu ei berfformiad cyntaf mewn opera, pan chwaraeodd ran Valentine yn 'Faust'.

Nid athro cyffredin mohono, yn fodlon i ddatblygu llais ei ddisgybl a'i lais yn unig. Yr oedd canu iddo ef yn gynnyrch o'r dyn cyfan – corff, meddwl ac ysbryd yn cyfuno i greu undod o brydferthwch. Aeth yn ôl i'r America drachefn yn 1901 i ddarlithio ar gerddoriaeth y gwahanol wledydd a chanu yn y prif gyngherddau. Yn 1904 penodwyd ef yn athro yn yr Academi Brenhinol. Yn 1905 cyhoeddodd lyfr lle mae'n datgan am arghoeddiadau ei oes, 'The Singing of the Future'. Bu farw Ebrill 13, 1918.

Merch i David ac Anne Ffrangcon-Davies oedd Miss Gwen Ffrangcon-Davies. Yn Llundain y'i ganwyd; Saesnes oedd ei mam. Aeth byd y ddrama a'i serch pan oedd hi'n blentyn, ond methodd ei thad, oherwydd afiechyd, â rhoi y gefnogaeth oedd arni cymaint ei heisiau. Mr. Redgewolf Dansig, disgybl i'w thad, a ddysgodd ganu iddi, a Mr. Rutland Boughton, awdur yr 'Immortal Hour', a'i dysgodd hi i ganu'r piano.



Gyda Mr Boughton, yn Glastonbury yn 1919, yr actiodd am y tro cyntaf, a hynny yn 'A Midsummer Night's Dream', ac mewn dramau eraill – rhai cerddorol i gyd.

Wedi hynny bu'n dysgu eraill i ganu yn Llundain, ac yn 1920 fe dynnodd sylw Syr Barry Jackson. Bu'n perfformio yn Birmingham yn 'The Immortal Hour', ac wedyn yn Llundain. Bu gyda Syr Barry Jackson am bum mlynedd, a bu'n actio mewn amryw o ddramau Shaw.

Wedyn cymerodd ran Tess yn 'Tess of the D'Urbervilles', ac mi fu yn

Sir Dorset lawer gwaith yn gweld Thomas Hardy, yr awdur. Ar ol hynny bu'n cyd-actio â Miss Edith Evans yn 'The Lady of the Lamp', drama wedi ei selio ar fywyd Florence Nightingale. Yn 1931 'roedd yn actio y brif ran yn 'The Barretts of Wimpole Street' yn y Queen's Theatre yn Shaftesbury Avenue, Llundain. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf bu ei chwarae allan yn yr Aiff gyda phartion canu Lena Ashwell yn canu i'r milwyr Cymreig yn El Fferdan.

Côr y Penrhyn

Rygbi a mwy

Aeth y côr i lawr i'r brifddinas ar benwythnos y 9fed a'r 10fed o Dachwedd i gymryd rhan yn yr adloniant cyn y gêm ryngwladol rhwng Cymru a De Affrig ar y dydd Sadwrn. Fel arfer, roedd yr awyrgylch cyn y gêm yn drydanol a chyda'r dyrfa enfawr yn llenwi'r seddau cafodd yr aelodau broffï'r wefr o ganu o flaen y miloedd yn Stadiwm y Mileniwm a rhwbio ysgwyddau gyda rhai o fawrion y gêm rygbi o'r ddwy wlad. Cawsom ganu rhaglen mor amrywiol â Calon Lân ynghyd ag Anthem Genedlaethol De Affrig a Cwm Rhondda ymhlith eraill. Ymunwyd â ni yn y canu gan ddau gôr arall o Dde Cymru o dan arweiniad Haydn James o Lundain. Profiad gwefreiddiol yn wir!

John Ogwen

Wedi i ni ganu yn y stadiwm genedlaethol a
threulio noson yn blasu awyrgylch y brifddinas
aethom drannoeth i stiwdio cwmni teledu i
recordio rhaglen i ddathlu penblwydd yr hogyn

o Sling, sef yr actor adnabyddus, John Ogwen. Atgyfodwyd cân enwog Bryn Fôn ar gyfer yr achlysur, Mardi Gras ym Mangor Ucha' ac ar gais John hefyd fe ganwyd Tshotolosa y gân o dde Affrica. Gobeithio i chi lwyddo i'w dal gan iddi gael ei darlledu ar yr un noson.

Cystadlu a charolau

Gydag Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn nesáu
a'r côr yn ôl ei arfer yn cefnogi trwy gystadlu
bu raid inni fynychu ymarferion ychwanegol
ar ôl dychwelyd o Gaerdydd.

Aelodau'r côr fydd yn gyfrifol am y gegin eto eleni a bydd nifer o'r aelodau yn gwirfoddoli i weithio yn y gegin trwy gydol y cystadlu.

Wedi'r eisteddfod bydd y Nadolig a'i alwadau am ganu carolau ar ein gwarthaf ac mae gan y côr nifer o leoedd wedi eu clustnodi ar gyfer y dasg honno. Tua'r un cyfnod byddwn yn cael ein cinio Nadolig blynyddol yng Nghlwb Golf Sânt Deiniol ym Mangor ac edrychwn ymlaen at ddanteithion yr ŵyl yng nghwmni diddanwyr.

Marchnad Ogwen



Dyma stondin Cardiau Maes Melyn a'i pherchenog Jan Jones

Wel dyma fi yn gorfod dweud gair amdanaf fy hun gan mai fi ydi Ysgrifennydd Marchnad Ogwen!

Dwi wedi bod yn hoff iawn o waith llaw o bob math ers yn blentyn. Bûm yn gwneud cardiau pwyth croes am flynyddoedd i deulu a ffrindiau, ond mae henaint yn dal i fyny a'r hen lygaidd ddim fel y buont! Roedd cydnabod yn dathlu rhyw achlysur neu'i gilydd ac wrth chwilio am gerdyn Cymraeg addas, dyma sylweddoli y buaswn yn hoffi rhoi cynnig ar wneud un fy hun - roedd digon o gardiau Saesneg ar gael!

Wedi ymddeol o fy swydd yn Ysgol Abercaseg, dyma fynd ati o ddifri. Gan fod rhai siopau eisiau cyflenwad, rhaid oedd meddwl am enw i'r cynnyrch. Mae gen i ddau fab, Rhys a'i deulu yn byw yn Maes Meddyg, Caernarfon a Siôn a'i deulu ym Mraichmelyn Bethesda. Cyfuniad o enw cartrefi'r teulu agos ydi'r enw.

Mae cardiau at bob achlysur ar gael - o hapusrwydd geni babi bach, i dŷ mewn galar a thristwch. Ceir cardiau pen-blwydd wrth gwrs a chardiau at y digwyddiadau yn ein bywyd bob dydd. Dwi'n gobeithio'n fawr fod y cardiau yn rhoi pleser a chysur i'r rhai sy'n eu derbyn. Ym Marchnad Ogwen yn unig y maent ar gael, a thrwy eu prynu, rydych yn cyfrannu at yr Uned Ymchwil Cancr sydd ar Ffordd Deiniol ym Mangor ac elusennau lleol.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth gan fy nghwsmeriaid.

Dyma limrig i Farchnad Ogwen gan y cyfaill triw o Riwas.

Marchnad Ogwen

*Mae safon arbennig i'r crefftau,
I'r llysiau ac i'r cacennau
Pob mis yn ddi-ffael
Marchnad Ogwen sy' ar gael
Am fwy na jyst mân drugareddau.*

Llawer o ddiolch i Êl am y gwirionedd yna - mae croeso cynnes yn y Farchnad a chyfle i gymdeithasu dros baned.

Bydd y Farchnad nesaf Rhagfyr 11eg yn y Clwb Rygbi o 10 y bore tan 2. Marchnad y Nadolig fydd hon. Mae croeso cynnes i ysgolion yr ardal ddod a chôr i ganu carolau yn y Farchnad hon (a chasglu ceiniog neu ddwy i gronfa'r ysgol yr un pryd). Cysylltwch â'r Ysgrifennydd i drefnu.

Bydd Stondin Elusen y mis hwn yn cefnogi Apêl Eleanor Jones sy'n casglu arian i brynu offer i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Am fwy o wybodaeth am y Farchnad cysylltwch â ni ar Facebook, neu Twitter #marchnadogwen neu ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk

Nyth y Gân

Marwolaeth Cenedl Lofr

Yn oer a heb dynerwch – y rhoddwyd
Hen ruddin gwladgarwch
Yn y llaid, a'i hiaith i'r llwch,
I farw o annifyrrwch.

Goronwy Wyn Owen

Tanchwa Pwll Glo Senghennydd

Mae olion datgymalu yn y lle
Y bu llwch a chwysu,
'Wnaeth neb dwys â'i wyneb du
Wir sôn am bwl ers hynny.

Gweddi a chryfion ysgwyddau a roed
I rai oedd mewn bratiau
Yn ysu am weld perthnasau
Blin ar ôl, a hi'n hwyrhau.

Aberfan

Dynion cryfion yn crafu â'u dwylo
A dal rhai'n galaru,
A damio'n ddwys domen ddu
Lwyddodd i sydyn gladdu.

Storïau ar y Stryd

Cludo'r stori a'r bag neges
A wnes adref yr un pryd,
Ac i'w chadw hi yn gynnes
Dychwel wnes yn sionc o'r stryd.

Mae sawl un i'w cael wrth gyfarch
Ar y palmant llyfn a llwyd,
Ac i'r rhai sy'n hoff o sgandal
Maen nhw'n well na phryd o fwyd.

Gwelir arno rai yn stelcian
A thafodau hynod chwm
Yno'n sgwrsio ac yn holi
Fel pe baent ofn colli dim.

Sticio cynffon wna y rheini
Ar bob stori fel mae'n dod,
A chamstumio fel y mynnont
Er mwyn ceisio ennill clod.

Wedi oeri, wedi tyfu
Yr oedd hi cyn hanner nos
Ac rôl magu llawer cynffon
Roedd hi'n bell o fod yn dlos.

Bro'r Chwareli

Cyrhaeddodd efo'i dad ond deng mlwydd oed
I'r gwaith hyd lwybrau trymion ar ddwy droed
A chlywed sŵn eu 'sgidia hoelion mawr
Yn taro bob yn ail hyd wyneb llawr.

Rhwng muriau moel y caban bob dydd Llun
Ei holli gâi y bregeth gan sawl un,
A hynod blysig fyddai'r trafod 'nawr
Gan y gwybodus rai dan glogwyn mawr.

Ceid cotiau'n mygu'n llonydd yn un rhes
O flaen y stôf a dfla'i yno'i gwres,
Ac oglau chwys a ddeuai yr un pryd
O ddillad gwŷr y graig a'u caled fyd.

A gwres berthynai i'r gymdeithas hon
A'r gwir drysorau bywyd dan eu bron;
Roedd balchder er bod tlodi yn ein bro,
A chafwyd mwy na llechen iddi'n do.

Dafydd Morris

Darllen i'r deillion

Os oes gennych ryw awr neu fwy i'w sbario, beth am ddod i ddarllen Llais Ogwan i'r deillion? Gwneir hyn unwaith y mis yn y stiwdio yn swyddfa'r deillion ym Mangor, a hynny yn ystod y dydd. Galwch Mary ar 600274 neu 07443047642.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Lowri Williams oedd y darlithydd a agorodd y tymor ar 14 Hydref yn festri Capel Jerusalem. Cafwyd noson ddiddorol dros ben yn ei chwmni wrth iddi drafod "Hen gaeau, hen enwau, hen hanes Dyffryn Ogwen."



Dyma lun ohoni ar ddiwedd y noson gyda Mr. Wynne Roberts, Cadeirydd y Gymdeithas.

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Pentir

Yn eu cyfarfod ar 10 Hydref penderfynodd y cynghorwyr roddi £300 o Nawdd i Fugeiliaid Stryd Bangor er mwyn eu cefnogi yn eu gwaith da.

Mynegwyd siom mai prin iawn oedd y ceisiadau am Nawdd ariannol a dderbyniwyd eleni. Penderfynodd y cynghorwyr roddi siawns arall i Fudiadau a Chymdeithasau Lleol anfon cais i mewn. Mae'r Cyngor yn awyddus i gefnogi unrhyw weithgarwch lleol sydd o fudd i'r gymdeithas gyfan.

Hefyd penderfynwyd gwneud cais am grant er mwyn mynd ymlaen gyda'r prosiect o gynhyrchu map hanesyddol a diwylliannol o ardal Pentir er mwyn ei rannu yn y pen draw gyda'r trigolion lleol.

Nodwyd fod rhai o gysgodfannau bws yr ardal mewn cyflwr gwael a phenderfynwyd gwneud archwiliad i weld beth oedd eu cyflwr.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cyfarfod Mis Hydref

Cynhaliwyd cyfarfod Hydref yn y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygái, gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair.

Mae llwybrau oedd angen eu trin wedi cael sylw, a gwaith atgyweirio wedi'i wneud. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i ystyried materion ynglŷn â biniau ychwanegol, ac hefyd i atgyweirio Pont Coetmor. Gwneir asesiad o effeithiolrwydd drych ar gyffordd Llwybr Main.

Cysylltwyd â'r Cyngor Sir ynghylch llwybrau diogel i blant sy'n mynychu Ysgol Bodfeurig, a chafwyd ar ddeall eu bod wedi trefnu cyfarfod gyda'r athrawon, rhieni, Cynghorydd Sir a swyddogion i drafod y mater.

Penderfynwyd hefyd i gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch problem sy'n codi oherwydd bwriad y Cyngor Sir i atal bws i blant sy'n teithio i Ysgol Llandygái o gyfeiriad Talybont. Mae'r ffordd yn beryglus i blant, ac yn ddiamau bydd rhagor o rieni yn gorfod danfon eu plant gyda cherbydau, gan wneud y sefyllfa drafnidiaeth ddifrifol fore a phrynhawn yn llawer gwaeth. Mae diogelwch y plant yn hollbwysig a dylai fod yn flaenllaw bob amser.

Daeth fy nhad a'i gyfaill lawer tro i lenwi eu bolia i dŷ'r wraig ac fe ddisgynnodd mewn cariad â Marion. Ym 1944 priodasant yn Eglwys St Marks, St Helens a daeth llawer o Dregarth i'r briodas. Ei frawd o'r R.A.F. oedd y gwas.

Keith Williams
Manchester

Dro yn ôl nodwyd yn eich Papur Bro fod dyddiad cau eleni i Gyngor Cymuned Pentir dderbyn ceisiadau am Nawdd. Mae'r dyddiad hwnnw bellach wedi mynd a siomedig oedd canfod mai dim ond un neu ddau o geisiadau a dderbyniwyd. Mae'r cyngor yn awyddus i gefnogi gweithgarwch lleol sydd o fudd i'r gymdeithas, ac felly wedi penderfynu rhoi tan ddiwedd mis Tachwedd i dderbyn ceisiadau ychwanegol. Bydd yn ofynnol: a)llenwi ffurflen bwrrpasol, ar gael gennyf i, y clerc, a b)anfon copi o'r Fantolen ddiweddaraf.

Manylion i gysylltu: Jiwn M Jones, 2 Rhes Constantine, Caernarfon LL55 2HL 01286 669180

jiwnjones@gmail.com

Gareth William Jones, Bow Street;
Jean Hughes, Talybont; Karen
Williams, Elfed Evans,
Llanllechid; Ann Carran, Gwenn
Evans, Rita Bullock, Gwyl Owen,
Bethesda; Dyls A. Pritchard-
Jones, Abercher; Dyls Parry,
Rhiwlas; emrys Griffiths,
Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor;
Donna Coleby, Penwitham;
Dulcie Roberts, Rosemary
Williams, Elizabeth Buckley,
Tregarth..

Cyfeiriad:

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Prif Ddisgyblion



Dyma brif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn :
Josh Ward a Cara Thomas

Ymweliad OECD

16 Hydref

OECD (*Organisation for Economic Cooperation and Development*) ydi'r corff sy'n gyfrifol am y profion rhyngwladol PISA, ac fe'i gwahoddwyd gan y cyn-weinidog addysg, Leighton Andrews, i gynnal adolygiad o system addysg Cymru. Buont yn ymweld â dwy ysgol uwchradd yng Nghymru, a gwahoddwyd Ysgol Dyffryn Ogwen gan y Cynulliad i fod yn un o'r ddwy.

Bu tri 'arbenigwr addysg rhyngwladol yn yr ysgol am y dydd yn cyfwrdd staff a disgyblion – yn cynrychioli Seland Newydd, yr Iseldiroedd ac Unol Daleithiau America. Bu Mr Godfrey Northam, cadeirydd y corff llywodraethol, hefyd yn rhan o'r cyfweiliadau. Eu briff oedd ceisio gweld pam fod rhai ysgolion mewn amgylchiadau tebyg yn llwyddo'n well na'i gilydd.

Gwahoddwyd pedwar pennaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd y cylch hefyd i gymryd rhan mewn sesiwn drafod yn ystod y dydd gan y Cynulliad.

Noson Agored

Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol nos Fawrth, Hydref 15fed, i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6. Yr oedd yn braf iawn gweld yr ysgol yn llawn o ddarpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas a Thregarth. Yr oedd canmoliaeth mawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol, a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.

Yr Adran Addysg Gorfforol

Rygbi

Tîm rygbi dan 14 wedi chwarae dwy a churo dwy eleni. Wedi ennill 38-20 yn erbyn Friars a 38-5 yn erbyn Brynrefail. Da iawn hogia!

Treialon Pêl-rwyd Eryri

Llongyfarchiadau i Manon Hughes ar gael ei dewis i garfan pêl-rwyd dan 16 Eryri.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd bl8, a gyrhaeddodd rownd plât yr 8 olaf yn nhwrnamaint pêl-rwyd yr Urdd i ysgolion Gogledd Cymru.

BAC - Chweched Dosbarth

Fel rhan o'u cymhwyster ar gyfer Bagloriaeth Cymru mae'n rhaid i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth drefnu gweithgareddau 'Gweithio Gydag Eraill'. Penderfynodd rhai o'r genethod baratoi a chynnal Disgo Gwisg Ffansi Calan Gaeaf ar gyfer blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr ardal yn neuadd yr ysgol.

Roedd y neuadd yn llawn addurniadau a goleuadau ar y thema Calan Gaeaf. Cafodd y plant ddawnsio, chwarae gemau, dylunio paent wyneb, a siawns i brynu diodydd, jeli, cacennau, creision a llawer mwy o fwydydd iach!!!

Roedd y noson yn llwyddiant a gwnaed elw tuag at elusen.

Ysgol Bodfeurig

Diolchgarwch



Cawsom wasanaeth diolchgarwch hyfryd yn yr ysgol gan y disgyblion. Diolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled ac am ddod ag eitemau bwyd ar gyfer y casgliad 'Banc Bwyd'.

Llysgenhadon Chwaraeon



Mae Charlie Williams a Llawen Pierce Hopkins o flwyddyn chwech wedi cael eu dewis fel llysgenhadon chwaraeon Ysgol Bodfeurig. Fel rhan o'u gwaith cawsant ddiwrnod o hyfforddiant yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Maent wedi cael defnyddio eu gwybodaeth ar gyfer dysgu'r disgyblion iau yn yr ysgol, a bu'r plant wrth eu boddau yn cael dysgu gemau newydd gan y disgyblion hŷn.

Cylchgrawn 'Beano'



Mae un o ddisgyblion hynaf yr ysgol – Jasper Finn o flwyddyn 5, wedi creu cartŵn o'i hoff gymeriad sef 'Dennis the Menace' ac mae wedi cael ei gynnwys yng nghylchgrawn y 'Beano'. Mae Jasper yn cael llawer o fwynhad wrth arlunio. Da iawn ar dy lwyddiant Jasper Finn!

Ysgol Abercaseg

Arbed ynni, arbed arian!!
Gyda'r clocioau bellach wedi eu troi'n ôl, y dyddiau'n byrhau a'r gaeaf ar ei ffordd, rydym yn fwy dibynolol ar drydan am olau a gwres. Yn anffodus, yn wahanol i olau naturiol, mae'n rhaid talu am drydan, ac felly bu i'r grŵp 'Byssedd Gwyrdd' drefnu i Ffion Jones, Swyddog Ynni Ysgolion Gwynedd, ddod draw atom i gynnig syniadau am ffyrdd o arbed ynni yn yr ysgol ac yn ein cartrefi. Mae pawb yn ymdrechu i weithredu ar ei chynghorion, gan obeithio y bydd y cyfan yn golygu biliau is a mwy o arian yn ein pocedi!!

Sialens Ddarllen Plas Braw



Braf oedd gweld bod nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn brysur dros wyliau'r haf yn ymweld â llyfrgell Bethesda. Roedd Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd wedi gosod her i blant y sir, sef darllen o leiaf chwe llyfr dros y gyliau. Llwyddodd nifer o blant yr ysgol i gwblhau'r her gan dderbyn medal fel gwobr am eu hymdrech. Da iawn chi blant.



Llongyfarchiadau hefyd i Wil am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth lliwio'r llyfrgell a oedd yn agored i holl blant Gwynedd. Mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn o'th llwyddiant.

Ymgyrch bocsys 'Operation Christmas Child'
Un o'r arwyddion cyntaf bod y Nadolig yn agosau yw gweld pamffledi a phosteri 'Operation Christmas Child' yn cyrraedd yr ysgol. Eleni, daeth Mr Wyn Owen, sy'n gweithio gyda'r elusen, draw i'r ysgol i ddangos ffilm a oedd yn olrhain taith y bocsys anrhegion o Gymru i wahanol rannau o'r byd. Agoriad llygad i blant Ysgol Abercaseg oedd sylweddoli mai dyma'r unig anrhegion y byddai'r plant a oedd i'w gweld ar y ffilm yn eu derbyn y Nadolig yma. Roedd tystio i'w hapusrwydd yn ddigon i ysgogi plant Abercaseg i fynd ati i lenwi bocsys anrhegion eto eleni. Cofiwch bod croeso i unrhyw un yn y pentref sy'n dymuno bod yn rhan o'r ymgyrch i ddod â'ch bocsys i'r ysgol lle bydd gweithwyr o'r elusen yn dod i'w casglu.

Noson i'w chofio
Does dim amheuaeth mai un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i fwyafrif o ddisgyblion Ysgol Abercaseg yw'r Disco Gwisg Ffansi. Bu hen bendroni a thrafod beth i'w wisgo, a phan gynhaliwyd y cyfan ar 24 Hydref roedd neuadd yr ysgol yn llawn gwrachod, cathod, bwganod, morladrona phob creadur arall y gallwch feddwl amdano. Cafwyd noson hwyliog o ddawnsio a chwarae gemau amrywiol, gyda phawb yn mwynhau'n arw. Yn ôl y sôn, mae rhai wedi dechrau cyfrif y dyddiau hyd nes y cynhelir y disco nesaf yn barod!!!

Gwobr Efydd y Siarter Iaith
Cydnabuwyd y gwaith y mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yn ddiweddar, pan y bu i ni dderbyn y Wobr Efydd gan y Cyng. Alwyn Gruffydd. Ymlaen a ni am y Wobr Arian rwan!

Clwb Celf Mr Urdd
Unwaith eto eleni, mae Clwb Celf Mr Urdd yn profi ei fod yr un mor boblogaidd ag erioed, gyda degau o blant yn mynychu'n wythnosol, gan greu gwaith celf mewn amrywiaeth o gyfryngau. Diolch i'r holl gymorthyddion sy'n cynnal y clwb.

Ymgyrch 'Wish List' y 'Daily Post'.
Cofiwch ein bod fel ysgol yn rhan o ymgyrch 'Wish List' y 'Daily Post' eleni. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai unrhyw un sy'n dymuno gasglu talebau'r ymgyrch i'r ysgol. Bydd yr arian a gesglir yn cael ei wario ar brynu offer garddio er mwyn datblygu gardd yr ysgol ymhellach a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn yr awyr agored.

Noson Rieni
Cynhelir Noson Rieni'r ysgol rhwng 3.30 – 5.00 yp ar 19 Tachwedd.

Ysgol Tregarth

Siarter Iaith Gwynedd



Cafodd yr ysgol ei hachredu gyda Gwobr Efydd Siarter Iaith Gwynedd am ei holl ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y disgyblion. Mae'r ysgol yn ysgol beilot i'r cynllun arloesol hwn sy'n gweithio i sicrhau bod yr holl weithlu, rhieni, llywodraethwyr a phlant yr ysgol yn rhannu yr un welediageth sef 'Siarad Cymraeg, wrth weithio, wrth chwarae bob amser. Mae Cymraeg yn Cŵl'.

Daeth Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Addysg, i'r ysgol ar ddiwrnod lansio'r cynllun i holl ysgolion Gwynedd. Cafodd gyfle i gyfarfod â rhai o'r disgyblion ac aelodau y Cyngor Ysgol. Daeth Radio Cymru hefyd i gyfwrdd â Huckelberry Bladwell, Stanley Freeman, Gwilym Gray a'r pennaeth Mrs Alison Halliday, a holi am effaith y Siarter ar weithdrefnau yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r hogiau ar gyfweiliad gwych ac i'r holl ysgol am ei llwyddiant yn y fenter.



Cacennau Caredig y Cyngor Ysgol
Llwyddodd y Cyngor Ysgol i drefnu bore coffi llwyddiannus iawn i gasglu arian i elusen Macmillan yn ddiweddar. Cafwyd llond lle o gacennau a danteithion o bob math. Gwahoddwyd rhieni plant dosbarth Tryfan i'r digwyddiad yn dilyn eu gwasanaeth dosbarth. Cafodd pawb lond eu boliau o gacennau hyfryd a llwyddodd y Cyngor i gasglu £140 i gronfa Macmillan. Diolch i bawb a fu'n pobi!!

Gwasanaeth Diolchgarwch
Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch arbennig yn Eglwys y Gelli ar y thema 'Y Byd a'i Ryfeddodau'. Cyflwynodd pob dosbarth eitem yn ei dro a chafwyd darlleniadau a gweddïau gan aelodau dethol o Flwyddyn 6. Yn ôl dymuniad y Cyngor Ysgol bydd y casgliad yn cael ei gyflwyno i gronfa'r Groes Goch a'u gwaith yn Syria. Diolch o galon i'r Tad John Matthews am ei groeso a'i fendith yn ystod yr addoliad, a diolch hefyd i swyddogion a ffyddloniaid yr Eglwys am eu caredigrwydd yn dilyn y gwasanaeth.

Ysgol Llandygái

Wythnos Fathemateg

Cawsom wythnos hwyliog a hynod ddiddorol yn ddiweddar yn datblygu sgiliau rhifedd yn drawsgwricwlaidd. Bu'r disgyblion yn gweithio gydag adnoddau Techniquet a hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdai mathemategol eu naws. Daeth nifer dda o rieni i fwynhau cyflwyniad i esbonio pwysigrwydd datblygu sgiliau rhifedd a hefyd i ddatrys posau mathemategol. Diolch i Mrs Pritchard a Mrs Hughes am y cynllunio a'r trefnu trylwyr. Wythnos i'w chofio.

Cyngor Ysgol

Erbyn hyn mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio'n galed o dan arweiniad Miss Jones. Llongyfarchiadau i Shane a Bethan ar gael eu hethol yn brif ddisgyblion yr ysgol.

Ymweliad â Choedwig Penrhyn

Bu disgyblion Dosbarthiadau Traed Bach ac Enfys yn y goedwig yn gwerthfawrogi tymor yr Hydref. Roeddent yn defnyddio eu synhwyrau, yn chwilio am lythrennau, yn adeiladu cartrefi i'r saith cysgadur ac yn casglu eitemau o wahanol liwiau i greu graff yn y dosbarth. Diolch i Gastell Penrhyn am gael defnyddio'r goedwig er mwyn annog diddordeb y plantos.

Trip i Swyddfa Ddosbarthu'r Post

Aeth disgyblion dosbarthiadau Heulwen a Gwawr i weld y post yn cael ei ddosbarthu yn y Brif Swyddfa ym Mangor fel rhan o thema'r tymor 'Pobl sy'n ein Helpu'. Cawsant amser diddorol iawn yn chwilio am lythyrau oedd ar eu ffordd i'r ysgol. Hefyd, daeth Rhian sef postmon y pentref, atom i roi cyflwyniad i'r plant, a chawsant fynd i gael cip ar y fan bost goch. Diolch Rhian.

Llongyfarchiadau

Mae disgyblion yr ysgol wedi llwyddo i ennill y wobr Arian Ysgolion Gwyrdd Gwynedd o dan arweiniad y pwyllgor gweithgar. Ymlaen at yr Aur rwan !!!

Gwasanaeth Diolchgarch

Cawsom wasanaeth bendithiol iawn yn Eglwys y pentref yn ddiweddar i ddiolch i Dduw am ei roddion. Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn diolch am y bobl sydd yn paratoi ein bwyd i ni – o'r bugail a'r ffermwr i ddyn y ffatri a'r siopwr. Roedd disgyblion yr Adran Iau yn diolch am dorth o fara, am fanas ac yn pwysleisio pwysigrwydd prynu nwyddau Masnach Deg. I gloi'r gwasanaeth cafwyd perfformiad hynod o deimladwy o gân 'Footprints in the Sand' gan yr Adran Iau. Diolch i'r Parchedig John Mathews am ei eiriau i'r plant a diolch hefyd am gefnogaeth rhieni a ffrindiau yr ysgol.

Dymuniadau Gorau

Pob dymuniad da i Mrs Caroline Hughes a'r teulu a chroeso i Llŷr Meirion-brawd bach newydd i Lois ac i Non.

Ysgol Llanllechid

Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Ms Angharad Efans, Bethesda ar ei dyweddiad ag Elfed o Rhiwlas. Pob dymuniad da gan bawb ohonom yn yr ysgol! (Diolch i Elfed hefyd am ei gyfraniad hael i Ffair yr ysgol)

Beicio

Gan fod beicio mor bwysig i ni fel ysgol iach ac ysgol werdd, cafodd dosbarth Blwyddyn 6 gyfle i wella eu sgiliau ac ymgeisio am dystysgrif diogelwch beicio ar y lôn. Bu'n brofiad gwych ac yn gyfle i atgoffa pawb am bwysigrwydd gwisgo helmed bob amser.

Trychfilod yn fyw!

Diolch i Mr Ben Stammers am gloriannu ein haddysg am drychfilod gyda chyflwyniad diddorol tu hwnt am drychfilod a chynefinoedd.

Bang! Crash! Lafa!

Cafwyd bore hynod o ddiddorol wrth i Mr Wright gyflwyno rhyfeddodau llosgfynyddoedd i'r disgyblion. Roedd ganddo amrywiaeth o greigiau i'w dangos a lludw o'r enwog losgfynydd yng Ngwlad yr Iâ. Dangosodd fideos o ffrwydradau y bu'n agos atynt ac, o ganlyniad, mae nifer o'r dosbarth bellach a'u bryd ar fod yn ddaearegwyr! Bu dosbarth Blwyddyn 1 yn gwneud llosgfynyddoedd diddorol hefyd, gyda Mrs Rona Williams ac roeddent wrth eu gweld!

Diolchgarwch

Daeth cynulleidfa ardderchog o rieni a ffrindiau'r ysgol ynghyd i neuadd yr ysgol ar fore ola'r tymor i weld ein cyflwyniadau Diolchgarwch.

Roedd pob dosbarth, yn ei dro, yn cael cyfle i ddiddanu'r gynulleidfa. Roedd yr arlwy yn cynnwys caneuon, darlleniadau, deialogau, cerddoriaeth greadigol/ offerynnol, dywediadau, ystod o farddoniaeth a llawer mwy! Roedd yn gyfle gwych i rieni a'n cyfeillion weld yr ysgol ar ei gorau. Braint hefyd oedd cael bod yn bresennol yng ngwasanaeth diolchgarwch Capel Carmel. Cafwyd gwasanaeth i'w gofio, a braf iawn gweld yr holl blant yn cymryd rhan; braf hefyd oedd gweld ieuenctid y fro yn dal ati ac yn gwneud eu gwaith i safon uchel. Clod i Mrs Helen Williams a'i thîm. Yn sgil hyn hefyd, dymunwn ymddeoliad hapus i'r Parch Geraint Hughes.

Athrawes o'r India

Roedd disgyblion Ysgol Llanllechid wedi dotio at gael athrawes o'r ucheldir yng ngorllewin yr India yn eu dosbarthiadau. Cafodd pob dosbarth ddigonedd o gyfle i'w holio'n dwll! Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r cysylltiad hwn ymhellach a chael cyfleoedd i ddysgu mwy am y teigrod a'r te ac ati!



Y disgyblion wedi mwynhau dysgu gan Mrs Renee, sy'n dysgu yn yr India

Cymdeithas y Chwiorydd

Bu Blwyddyn 5 a 6, sef dosbarthiadau Mr Huw Edward Jones a Mrs Hanna Huws, yn diddanu Cymdeithas Chwiorydd y Capeli lleol ar nos Iau, Hydref 10ed a daeth cynulleidfa gref ynghyd i neuadd yr ysgol. Cyflwynwyd pob math o eitemau, yn seiliedig ar y thema dŵr ac roedd yn hyfryd cael cyfraniadau yn ogystal gan Aziliz Kervegant a Beca Nia, sef dwy o'n cyn ddisgyblion. Diolch hefyd i Gwydion Rhys am chwarae ei soddgrwth i gyfeiliant ei dad, Mr Stephen Rees.

Trawsnewidwyd ein Ffreutur yn fwyty 5 seren a chafwyd lluniaeth cyn ei throi hi am adref! Diolch i Ms Leanne ac Anti Gillian am y cymorth parod a'r bara brith ac i Mrs Macdonald am y bisgedi. LLUN (ANTI JINI a rhai o'n ffrindiau o Gymdeithas y Chwiorydd)

Ffilmio

Ymddangosodd Mr Huw Edward Jones a'i ddosbarth ar Newyddion 9, S4C yn ddiweddar. Roedd yr ysgol wedi ei dewis i arddangos gwers ar gadw'n heini fel rhan o ymgyrch cadw'n iach gan y Cynulliad.

Rhodd

Diolch y fawr iawn i Mrs Stella Davies, Bronnydd am y rhodd a dderbyniwyd ganddi er côf am ei gwr, Wyn. Bu cysylltiad hir ganddi â'r ysgol, cysylltiad sy'n parhau o hyd, gan fod ei hwyr a'i hwyresau'n ddisgyblion yma ac roedd yn braf ei gweld yn cefnogi'r teulu yn ein gwasanaeth Diolchgarwch.

Diolch

Diolch yn fawr i Mr a Mrs H Roberts, Corbri a Mrs Shirley Roberts am eu rhoddion caredig o ddwy sofffa gyfforddus i'r ysgol.

Diwrnod T. Llew Jones




Mabon ac Ethan yn casglu dail ar Lôn Bach Odro

Yn ôl ein harfer, dathlwyd diwrnod T Llew Jones. Roedd gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal ym mhob dosbarth gan gynnwys darllen storiâu, dysgu cerddi, coginio bisgedi ac yn wir, aeth y Dosbarth Meithrin i 'ddawnsio gyda'r dail' ar hyd Lôn Bach Odro!

Ysgol Pen-y-bryn

Ryghi



Hoffai'r ysgol longyfarch Huw Davies a Tomos Hughes o flwyddyn 5 ar gael eu dewis i chwarae i dîm rygbi Eryri. Rydym yn falch iawn ohonoch ac edrychwn ymlaen at glywed hanes y gemau!

Ennill beic

Llongyfarchiadau mawr i Seren Mai o flwyddyn 5 am ennill beic drwy fynychu llawer o sesiynau ymarfer corff ym Mhlas Ffrancon dros yr haf. Seren yw'r unig un trwy Wynedd i ennill beic – da iawn ti!!

Ffilmio

Croesawyd Mr Dafydd Watcyn Williams a Dewi'r Dyn Camera Gwych i'r ysgol ar 21 a 22 Hydref i ffilmio arfer da'r ysgol gyda'i gweithgareddau darllen. Ymatebodd y plant i gyd yn wych i'r holl weithgareddau gan drafod yn frwdfrydig a chall. Roedd aeddfedrwydd a pharodrwydd y plant i helpu ei gilydd ac i gyd-weithio wedi creu cryn argraff ar Mr Williams a Dewi. Roeddynt hefyd wedi gwirioni gweld y plant wedi ymlynnu i'r gwaith ac yn dyfalbarhau hyd nes cwblhau'r gwaith i safon uchel. Hoffai'r holl staff a phlant ddiolch yn fawr i'r ddau am wneud y broses yn un hwyliog ac edrychwn ymlaen i weld y cynnyrch terfynol ddechrau'r flwyddyn.

Darllen



Gwobrwywyd llawer o blant yr ysgol am lwyddo i ymweld â'r llyfrgell dros wyliau'r haf fel rhan o'r Cynllun Plas Braw. Braf oedd gweld cymaint o blant wedi ymrwymo i'r cynllun, yn frwdfrydig am ddarllen a bod cynnydd sylweddol ers llynedd. Da iawn blant!

Llenyddiaeth Cymru

Ydych chi'n ysgrifennu pethau ffeithiol fel bywgraffiad, neu straeon byrion, cerddi, neu nofel yn y Gymraeg, ac yn hunan-nodi fel person anabl ac/neu a oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor?

Ydych chi'n ffansio gweithio gydag ysgrifennwyr eraill mewn grŵp bychan cyfeillgar er mwyn datblygu eich gwaith?

Beth am ymuno â grŵp newydd arbennig sy'n bwriadu cyfarfod yn ardal Caernarfon bob mis?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni: denni@dacymru.com neu post@dacymru.com Ffôn:029 2055 1040

Annwyl Olygydd

Annwyl Olygydd

Gyda'r perygl y bydd yr Albanwyr yn pleidleisio dros annibyniaeth i'w gwlad mewn refferendwm y flwyddyn nesaf mae'r gyfundrefn Brydeinig wedi ymateb yn hysterig. Mewn ymgais i'n cadw yn gefnogol i'r oruchafiaeth Seisnig ym Mhrydain maent am i ni goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r rhai a gollodd eu bywydau yn ymladd dros yr Ymerodraeth Brydeinig. Gobeithiant trwy hyn y byddwn ni, yn nhiroedd Celtaidd gorchfygedig Prydain, yn anghofio ein dyheadau cenedlaethol gan ddal i gredu yn y myth Prydeinig.

Mae achlysur hanesyddol sy'n fwy perthnasol i Gymru, fel cenedl, ei goffau, pan ymladdodd a bu farw Cymry dros ryddid. Ar 11 Ragfyr, 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt, yn ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwmhir. Aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrs golff Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i 11 Rhagfyr 11 sef 7 Rhagfyr eleni. Hefyd, ar ddydd Sul, 8 Rhagfyr cynhelir seremoni coffau yn Llys Rhosyr ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Yn Llys Rhosyr gellir gweld olion yr unig un o lysoedd Llywelyn y cafwyd hyd iddo hyd yma.

Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.30 o'r gloch. Cyn hynny yn y bore caiff torchau eu gosod ar gofologfyn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 12.30 o'r gloch.

Os ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig coffau'r rhai, "dros ryddid collasant eu gwaed" gobeithiwn eich gweld yn y seremonïau hyn.

Yr eiddoch yn wlatgar
Chris Schoen
Penygroes
Gwynedd

Annwyl Olygydd:

Bob tro yr wyf wedi bod yn Israel tywysydd y grŵp oedd Cristion o'r enw Joseph Wabbeh. Mae'n byw yn Deir Hanna, tref yng Ngaliilea rhyw bum milltir ar hugain o Diberias. Mae'n ŵr dysgedig, yn siarad pum iaith. Wrth agor yr Ysgrythurau i ni mewn modd arbennig byddai'r manau sanctaidd yn dod yn fyw. Roedd gwrandio arno yn mireinio ein profiad. Er bod Joseph yn ddinesydd Israelaidd, Palestinaid yw ac felly heb gael manteision materol fel yr Iddewon. Nid oes gwasanaeth iechyd yn y wlad fel sydd gennym ni yma. Mae'r Iddewon yn gadael yr ysgol yn ddeunaw oed ac yn gorfod mynd i'r fyddin. O hynny allan maent yn rhan o gynllun iechyd sy'n gofalu amdanynt am weddill eu hoes. Nid yw'r Palestinaid yn mynd i'r fyddin oherwydd y milwyr yma sy'n gormesu eu pobl. Os ydynt mewn gwaith maent yn talu yn reolaidd am gymorth meddygol ond mae llawer iawn ohonynt yn ddi-waith. Fel canlyniad, pan fo salwch yn taro, rhaid i'r Palestinaid dalu am gymorth meddygol neu ddiodeff a marw.

Dyma sefyllfa Joseph ar hyn o bryd. Mae'n diodeff o'r cancr - cyflwr sy'n bosib ei drin a'i wella gyda llawdriniaeth. Gan iddo fod yn sâl am bron i flwyddyn nid yw wedi gallu gweithio ac felly nid oes ganddo'r arian sydd ei angen i dalu am y driniaeth i achub ei fywyd. Mae'r gost yn debyg i gost triniaeth breifat yn y wlad hon. Hefyd bu'n fynach yn Ffrainc am flynyddoedd ac os oedd yn derbyn tâl am waith yna roedd yn rhaid rhoi'r arian i'r eglwys. Pan gaewyd y fynachlog ni chafodd y myneich unrhyw ad-daliad er iddynt apelio i'r Vatican.

Ni allaf adael iddo farw. Bydd angen £6,000 dros y tri mis nesaf i dalu am y driniaeth. Gall nifer o roddion bychan wneud byd o wahaniaeth a gwerthfawrogi pob rhodd.

Rwyf felly yn lansio cronfa i achub ei fywyd. Hoffwn eich gwahodd i anfon rhoddion i'r gronfa er mwyn iddo weld fod cariad Cristnogol yn ymestyn o Gymru at gyd-ddyn mewn angen yng Ngwlad yr Iesu. Gadewch i ni ddilyn yn ôl traed y Ffisigwr Mawr a chynnig rhodd o fywyd iddo.

Ym mhob argyfwng blin, pan gwyd
fy nghyd-ddyn llesg ei gri,
rho i mi fentro, Iesu mawr,
yng ngrym dy gariad di

Anfoner pob rhodd at Y Parchedig Eirlys Gruffydd, Argel, 4 Parc Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Flint. CH7 1TH Ffôn: 01352 754458 E-bost: gruffyddargel@talktalk.net

Gellir anfon sieciau wedi eu gwneud allan i Eirlys Gruffydd. Mae cyfrif banc arbennig wedi ei agor i dderbyn y rhoddion. Diolch o galon i chi.

Pridd

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn falch o gyhoeddi mai drama newydd gan Aled Jones Williams yw cynhyrchiad nesaf y cwmni. Mae Pridd yn ddrama ar gyfer un actor ac fe fydd yn mynd ar daith ar draws Cymru yn ystod mis Tachwedd. Ysgrifennwyd y ddrama yn arbennig ar gyfer yr actor Owen Arwyn gan Aled Jones Williams.

Bywyd y diddanwr plant, Handi Al yw canolbwynt y ddrama. Un prynhawn mae’n dychwelyd adref i ddarganfod fod pob dim a’i ben i waered a’r ddodrefn yn troi’n bridd. A feiddiai dynnu ei golur ac ystyried y bywyd mae wedi ei fyw?

Meddai Aled Jones Williams; “Ysgrifennais Pridd fel drama ar gyfer actor. Felly yr actor a’r actio sydd flaenaf, nid y themau. Os oes thema - ac rwyf am bwysleisio’r os - yna drama am hunaniaeth ydyw: a wyddom pwy ydym?; a wyddom beth sy’n digwydd i ni ar hyn o bryd?; a wyddom sut y mae’r pethau hynny yn digwydd?”

Er mwyn deall cymeriad Handi Al mae Owen Arwyn wedi bod yn treulio’i amser yn dysgu triciau clownio ac wedi cael arweiniad gan arbenigwyr yn y maes. Meddai;

“Mae’n bleser gweithio ar ddrama sydd wedi cael ei ysgrifennu ar fy nghyfer gan rhywun dwi’n ei edmygu cymaint ag Aled Jones Williams. Mae’n ddrama ddiddorol sydd yn cynnig llawer i actor. Dwi wrthi ar hyn o bryd yn dysgu triciau clownio... Sy’n dipyn o her, ond mae’n gymorth i fynd at wraidd y cymeriad.”

Sara Lloyd fydd yn cyfarwyddo’r ddrama. Bu’n gweithio fel cyfarwyddwr cyswllt ar Blodyn ym mis Mehefin eleni, ond dyma’r tro cyntaf iddi arwain ar y cyfarwyddo i Theatr Genedlaethol Cymru.

Bydd perfformiadau o’r ddrama yn Galeri, Caernarfon ar Dachwedd 18 ac 19, am 7.30.01286 685222 / galericaernarfon.com

Mae’r sioe yn addas ar gyfer oedran 14+.

Urdd Gobaith Cymru

Annwyl Gyfaill

TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES
Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae’r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuencid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuencid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
- Gofynnir i chi ddefnyddio’r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa’r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai’r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu’n ymwneud ag ieuencid sy’n dysgu’r iaith
- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.
- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuencid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuencid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuencid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa Penhelyg, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion ar 01239 652163, neu trwy e-bost - enfys@urdd.org

Yn gywir
Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr
Urdd Gobaith Cymru

Gwybodaeth am ddim yn y Gymraeg – cadw’ch calon yn iach

Fel elusen genedlaethol y galon hoffem roi gwybod i’ch darllenwyr ein bod yn cynnig taflenni cyfrwng Cymraeg i helpu i newid ffordd o fyw er mwyn bod yn iachach – a gwybodaeth bwysig ynglŷn â rheoli cyflyrau calon.

Mae Clefyd Coronaidd y Galon yn dal i ladd mwy o bobl Cymru nag unrhyw glefyd arall. Yn ogystal ag ariannu gwaith ymchwil arbenigol ar y galon yng Nghymru a chefnogi 97 o nyrsys y galon yng Nghymru, ‘rydym yn ymdrechu i gefnogi cleifon y galon a gofalu amdanynt, ac i atal clefyd y galon drwy hybu byw’n iach yn ein cymunedau.

Gall clefyd y galon effeithio ar bawb ohonom – o’r plentyn lleiaf sy’n cael ei eni â nam ar y galon, i oedolion sy’n brwydro oherwydd methiant y galon. Os hoffech ragor o wybodaeth am ein cyhoeddiadau Cymraeg neu Saesneg: ewch i – www.bhf.org.uk/publications neu ffoniwch – 0870 600 6566

‘Rwyf i yn un o dîm o gydweithwyr a fydd yn hapus i ddod at fudiadau lleol i sôn am ein gwaith yn lleol a rhanbarthol, ac mae croeso i chwi gynnig ychydig o ddyddiadau pryd y gallem ddod i sgwrsio â’ch mudiad, ac yna fe gysylltaf â chwi cyn gynted ag y gallaf.

Diolch yn fawr,

Jayne Lewis
Swyddfa: 01554 891 500
Symudol: 07860 727 547
E-Bôst: lewisja@bhf.org.uk

Cyfle i ddysgu am olrhain hanes teulu

Oes gennoch chi ddiddordeb mewn olrhain hanes teulu? Bydd cyrsiau undydd ar gyfer y sawl sydd â diddordeb mewn olrhain hanes teulu yn cael eu cynnal yn Archifdy Caernarfon dan arweiniad Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd ym mis Tachwedd.

Dyma gyfle i chi gael arweiniad ar y ffordd orau i fynd ati i olrhain hanes eich teulu, a chael edrych ar wahanol ffynonellau a thystiolaeth. Cynhelir sesiwn yn trafod astudiaeth achos a sesiwn cwestiwn ac ateb hefyd yn ystod y dydd. Bydd y sawl sy’n mynychu yn derbyn pecyn gwybodaeth.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros y celfyddydau:

“Mae olrhain hanes teulu wedi dod yn boblogaidd iawn yn ddiweddar gyda nifer o raglennu teledu yn canolbwyntio ar y maes. Dyma gyfle gwych i unrhyw un sydd gan ddiddordeb gael cyngor ar y ffordd orau i fynd ati i wneud hynny. Dwi’n siŵr y bydd hwn yn gwrs yn hynod ddiddorol.”

Cynhelir y Cyrsiau Olrhain Hanes Teulu ar y dyddiau canlynol:

- cwrs Cymraeg - Dydd Sadwrn 16 Tachwedd am 10am yn Archifdy Caernarfon
- cwrs Saesneg - Dydd Llyn 25 Tachwedd am 10am yn Archifdy Caernarfon

Cost y cwrs yw £10, ac mae’n hanfodol eich bod yn archebu eich lle.

Am fwy o wybodaeth, neu i archebu lle ar un o’r cyrsiau, cysylltwch â Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd ar 01286 679095, neu e-bostiwch archifdy@gwynedd.gov.uk

Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Ers dwy flynedd, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn datblygu cynlluniau arloesol i hyrwyddo ac annog defnydd plant o’r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

Fel rhan o waith ‘Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd’, mae’r Cyngor wedi datblygu pecyn o adnoddau ac wedi sefydlu trefn o gydnabod a gwobrwyo ymdrechion ysgolion wrth iddynt anelu am statws efydd, arian neu aur y siarter.

Mae 23 o ysgolion cynradd yn nalgylchoedd Ogwen, Botwnnog ac Ardudwy wedi bod yn rhan o gynllun peilot y siarter. Diolch i ymdrechion plant, staff a rhieni’r ardaloedd hyn, mae’r ysgolion wedi cyrraedd statws efydd ac maent wedi cyflwyno eu profiadau i athrawon gweddill y sir mewn tair cynhadledd dathlu a dysgu yn ddiweddar.

Dywedodd y Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd:

“Nod syml y Siarter Iaith ydi annog a chefnogi plant Gwynedd i ddefnyddio eu Cymraeg – nid yn unig yn y dosbarth ond ym mhob agwedd o’u bywydau.

Ychwanegodd Gwenan Ellis Jones, Cydlynnydd Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd:

“Yn sail i’r cyfan, mae’r egwyddor syml fod llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad staff, rhieni a llywodraethwyr yn ogystal wrth gwrs a’r plant eu hunain wrth iddynt gyrraedd at y nod o gynyddu’r defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg.”

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Isdeitlau
Subtitles

AM
DDRAMA

Am Ddrama
9.00
Bob nos Sadwrn

Chwe ardal, chwe grŵp
o berfformwyr, un canwr
opera... Am Ddrama!

Noddwyd gan



s4c.co.uk

**mudiad
meithrin**
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwyh ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE** mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: **post@camwrthgam.co.uk**

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

www.camwrthgam.co.uk

Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
Ysgol Llanllechid

Bore Coffi

yn

Clwb Criced, Bethesda
Ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr
10am – 12pm

Raffl, Stondinau Crefft, Siôn Corn a digon o fwrlwm y Nadolig

Mynediad: £1 i oedolion;
plant cynradd am ddim
Croeso cynnes i bawb

(Am fanylion pellach neu i archebu
gofod stodin grefftau, cysylltwch â:
Iona Robertson: 602658 / 07747
778577 neu
iona.robertson@tesco.net)

Cyfarfod Blynyddol Caban Gerlan

19 Tachwedd
am 7.00 o'r gloch
yn y Caban

Croeso Cynnes i Bawb

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10am - 2pm

Rhagfyr 14^{eg}
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

Ionawr 11^{eg}
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

Bwydydd, Creffttau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Tachwedd 26
Rhagfyr 10
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont FFAIR NADOLIG

yn
Festri Bethlehem

Nos Fercher, 4 Rhagfyr
am 6.30 o'r gloch

Mynediad £1.00
Yr Elw at y Capel a'r Ysgol Sul

EGLWYS Y SANTES FAIR TREGARTH

Te Nadolig
3 Rhagfyr
am 2.00pm

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick
Bethesda
11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn
cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs
Douglas Arms
Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun
pob mis

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Nos Wener, 15 Tachwedd
6.30pm
yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd
10.00am
yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Ysgrifennydd Cyffredinol: Lowri
Watcyn Roberts, Tregarth
01248 600490

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Sioe Ffasiwn

gan

So Chic

Theatr Ddarlithio
Ysbyty Gwynedd

Dydd Iau 21 Tachwedd
7.30 p.m.
£7.00

Raffl

Eglwys Annibynnol Bethlehem Talybont GWASANAETH NADOLIG

yng Nghwmni
Plant yr Ysgol Sul

Dydd Sul 15 Rhagfyr
am 2.00 o'r gloch

Casgliad at Apêl Nadolig
Cymorth Cristnogol

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 9 Rhagfyr 2013
yn Festri Capel Jerusalem

Catrin Wager

'Prosiect Penrhyn'
Catalogio Archifau Castell Penrhyn

£1.50 wrth y drws
neu am ddim i aelodau

Caffi Coed y Brenin Bore Coffi Eglwys Sant Tegai

Bore Sadwrn, 16 Tachwedd 2013
10.00 – 12.00

Mynediad £1.00

Caffi Coed y Brenin Bore Coffi Neuadd Talgai

Sadwrn, 23 Tachwedd 2013
10.00 – 12.00

Caffi Coed y Brenin Ffair Nadolig Y Blaid Lafur hefo Siôn Corn

Bore Sadwrn, 7 Rhagfyr 2013
10.00 – 12.00

Mynediad £1.00

I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn
Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â
Neville Hughes
☎ 600853

Chwaraeon

Bocsio

Dyrnu Gwyllt



Cynhaliodd Clwb Bocsio Caernarfon dwrnamaint llwyddiannus yng ngwesty Meifod, Bontnewydd ar Hydref 26. Eu gwrthwynebwyr ar y noson oedd aelodau o Glwb Bocsio Wicklow, Iwerddon. Da cael adrodd fod y tri aelod o dîm Caernarfon wedi cael llwyddiant - Sean Carson o Rachub yn ennill ei ornest yn erbyn Connor Roche a hynny yn y rownd gyntaf.

Yr un canlyniad gafodd David Florence o Dregarth wrth iddo drechu Liam Hayes. Yn y drydedd rownd yr enillodd Les Florence, drwy atal ei wrthwynebydd Cian Byrne.

Yn wir, 'roedd perfformiad Les yn un arbennig, ac iddo ef yr aeth gwobr Bocsiwr gorau'r twrnament. Llongyfarchiadau i'r tri.

Y Tîm Pêl-droed Peryclaf yn y Byd
Ydych chi'n eu hadnabod?

Lansio ymgyrch Cardiau CRASH Beiciau Modur yng Ngwynedd

Mae reidwyr beiciau modur yng Ngwynedd yn cael eu hannog i gario cardiau gyda gwybodaeth a allai achub eu bywyd mewn damwain.

Mae tîm Diogelwch Ffyrdd Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gydag aelodau o Ddiogelwch Ffyrdd Cymru i hybu'r ymgyrch hwn, gyda chefnogaeth gan Ymddiriedolaeth Ambiwylans GIG Cymru.

Crëwyd y cardiau hyn gan y Clwb Beiciau Modur Ambiwylans cenedlaethol (AMC), a enillodd wobwr Ffederasiwn Internationale de Motorcyclisme Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer y cynllun yn 2012.

Mae'r cardiau yn cynnwys y mnemonig CRASH, a ddilynai set debyg o gwestiynau a ddefnyddir gan ganolfannau rheoli gwasanaeth ambiwlans. Ar yr ochr arall mae yna wagle i lenwi gwybodaeth feddygol, yn ogystal â lle i restru'r enw a rhif ffôn cyswllt perthynas.

Dywedodd Dr Paul Hughes, Cyfarwyddwr Meddygol Gwasanaeth Ambiwylans Cymru: "Gallai gwneud rhywbeth mor syml a chario cerdyn CRASH yn eich helmed, ein galluogi ni fel gwasanaeth i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch y driniaeth sydd ei angen wedi gwrthdrawiad neu ddamwain beiciau modur.

"Bydd y cardiau CRASH yn darparu ein staff â gwybodaeth glinigol hanfodol i wella'r gofal y gallwn ei ddarparu i feicwyr modur ar draws Cymru. Mae'n bwysig iawn cofio, bod tynnu helmed reidiwr beic modur ar ôl damwain yn dasg arbenigol y dylid ond ei wneud gan griwiau ambiwlans neu bersonél hyfforddedig arall."

Mae cardiau CRASH ar gael am ddim o siopau beiciau modur lleol yng Ngwynedd gan gynnwys Dragon Motorcycles Y Felinheli, Bill Smith's Motors Bangor a Café Eric Jones yn Nhremadog.

Er mwyn archebu pecyn ac am fwy o wybodaeth ewch i www.ambulancemotorcycleclub.co.uk neu cysylltwch â thîm Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd ar 01286 679901 neu ewch i www.ambulancemotorcycleclub.co.uk.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk